*This document is available in English.*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod o'r **PANEL GWEITHREDOL** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN 17 MEHEFIN 2024**
yn rhithiol **dros Zoom** am **14:00 o'r gloch.**

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

**AGENDA**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Fuddiant**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
   Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2024**

5. **Materion yn Codi**

6. **Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru**

7. **Monitro Perfformiad Blwyddyn Ariannol 2023-24**

8. **Adroddiad Cynnydd ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys**

9. **Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth yn sgil Trasiedi Gyhoeddus**

10. **Adroddiad ar Adolygiad Datgarboneiddio 2021-22**

11. **Rheoli Risg Strategol (Cofrestr Risg)**

12. **Materion Brys**
    Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

**RHAN II**

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 yn Rhan 4 Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**Dim.**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Y PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion **Panel Gweithredol** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 18 Mawrth 2024 yn rhithwir dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. Alan Hughes (gadawodd 14:50) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. Chris Hughes (o 14:23 ymlaen) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. Rondo Roberts | Cyngor Sir Wrecsam |
| Y Cyng. Paul Rogers | Cyngor Sir Wrecsam |
| Y Cyng. Gareth Sandilands (o 14:36 ymlaen) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân |
| Stewart Forshaw | Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| George Jones | Atebol - Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|

Cafwyd adroddiad gan y PST Docx ar ddigwyddiadau'r mis diwethaf o ran yr agweddau diwylliannol sy'n gysylltiedig â'r sector.

Nododd y PST fod y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, Hannah Blythyn, ar 26 Chwefror, wedi cyhoeddi bod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn destun ymyrraeth ar yr ystyr bod yr Awdurdod Tân wedi'i ddiddymu ac y byddai Comisiynwyr yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru gyda chylch gwaith i wella'r diwylliant. Roedd hefyd angen penodi Prif Swyddog Tân dros dro.

Yn syth ar ôl y cyhoeddiad hwnnw, cysylltodd Dan Stephens, Prif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru, â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru er mwyn canfod a oedd unrhyw uwch swyddogion a allai fod â diddordeb i ymgymryd â rôl Prif Swyddog Tân Dros Dro Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, gan weithio o dan y comisiynwyr. Mynegodd y PSTC Stuart Millington ddiddordeb yn y rôl ac fe'i penodwyd wedi hynny. Yn GTAGC, mae Justin Evans wedi'i benodi i swydd wag y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol dros gyfnod secondiad Stuart Millington.

Ym mis Mawrth, datblygwyd cynigion ar y cyd rhwng y Gwasanaeth a GTACGC ar gyfer goruchwyliaeth annibynnol o gynnydd GTAGC a GTACGC o ran y diwygiadau diwylliannol a'u rhoi i'r Dirprwy Weinidog. Roedd y cynnig hwn yn cynnwys asesu'r sefyllfa a'r cynnydd yn erbyn canfyddiadau adolygiadau eraill yn y sector gan gynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu nodi er mwyn cymryd camau pellach. Y bwriad ar hyn o bryd yw defnyddio'r un adolygydd ar gyfer GTAGC a GTACGC.

Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog ddatganiad wedi hyn yn dweud y byddai hyn yn digwydd; fodd bynnag, byddai angen i'r gwasanaethau dan sylw ddarparu'r cyllid a gallai hynny gostio hyd at £0.5m.

Ochr yn ochr â hyn, roedd ITV Cymru wedi bod yn rhedeg stori ynglŷn â chŵynion honedig o fewn y Gwasanaeth.  Cadarnhaodd y PST fod unrhyw aelod o staff sy'n cael profiad o ymddygiad gwael yn destun pryder iddi ac mae wedi estyn allan at gydweithwyr ac wedi'u hannog i roi gwybod am unrhyw achos o ymddygiad gwael.

Ar 11 Mawrth, rhoddodd y Cadeirydd a'r PST dystiolaeth i'r Fforwm Cydraddoldeb a Phartneriaeth Gymdeithasol yn y Senedd yng Nghaerdydd.

Gofynnodd un Aelod pam nad oedd cyllid yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Nododd y Cadeirydd nad oedd yr adolygiad yn cael ei arwain gan CB ac felly mae'n debygol y bydd y gost yn llai na'r £500,000 sydd wedi'i amcangyfrif.

## 2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

## 3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd hysbysiad o faterion brys.

## 4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 RHAGFYR 2023

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2023 i'w cymeradwyo.

**4.2 PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

## 5.0 MATERION YN CODI

5.1 Nododd y Trysorydd fod y cyfarfod diwethaf wedi gosod y gyllideb ac ar yr adeg honno, roedd ansicrwydd ynglŷn â chyllid ar gyfer y pensiynau. Roedd wedi teithio i Gaerdydd dros y penwythnos ac wedi cael gwybod y byddai Llywodraeth y DU yn rhoi cyllid i Lywodraeth Cymru er mwyn cynnig cefnogaeth gyda'r cynnydd yng nghostau pensiynau, er nad oedd swm y cyllid a fyddai'n cael ei dderbyn yn hysbys eto.

5.2 Nododd y Cadeirydd baragraff 7.3 a oedd yn cyfeirio at lefelau absenoldeb salwch a gofynnodd a oedd system wedi'i rhoi ar waith i fonitro'r rhain yn erbyn Gwasanaethau Tân ac Achub eraill tebyg o ran maint. Dywedwyd bod y data hwn bellach wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Perfformiad, ond ar sail Genedlaethol. Gwnaed cais gan y Cadeirydd i ofyn am arweiniad Archwilio Cymru yn y maes hwn ac iddo gael ei adrodd i gyfarfod yn y dyfodol.

## 6.0 CYNLLUN RHEOLI RISG CYMUNEDOL 2024-29 A CHYNLLUN GWEITHREDU RHEOLI RISG CYMUNEDOL 2024-25

6.1 Cyflwynodd y DBST Forshaw y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-29 ac adroddiad y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-25 er mwyn cyflwyno'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd 2024 i 2029 a'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol ar gyfer 2024-25 i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), a cheisio cymeradwyaeth i ymgynghori â'r cyhoedd ar ein cynlluniau blwyddyn a phum mlynedd arfaethedig.

6.2 Gwnaed cais gan un Aelod, ar ôl i'r cynllun hwn gael ei gymeradwyo, iddo ddod yn rhan o arferion busnes arferol er mwyn iddo gael ei ymgorffori'n llawn.

**6.3 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad; a**
**ii) Chymeradwyo'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol drafft 2024-29 a'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-25 ar gyfer ymgynghori ag Aelodau'r Awdurdod, staff, rhanddeiliaid perthnasol a'r cyhoedd cyn eu cymeradwyo mewn cyfarfod llawn o'r Awdurdod ym mis Gorffennaf 2024.**

## 7.0 ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD CH3, 23-24

7.1 Cyflwynodd y Rheolwr Ardal Anthony Jones yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 3, 23/24 a oedd yn rhoi gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau yn ystod tri chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24, perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod, a gweithgarwch digwyddiadau nodedig eraill.

7.2 Gofynnodd un Aelod beth allai fod yn achosi'r cynnydd yn y digwyddiadau yng Ngharchar y Berwyn, a chafwyd yr ymateb eu bod yn ymwneud â thanau bwriadol. Roedd hyn yn debygol o fod oherwydd y cynnydd ym mhoblogaeth y carchar gan ei fod bron iawn yn llawn; fodd bynnag, mae Uwch Ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch a Thanau newydd bellach wedi cychwyn yn ei swydd yn y carchar ac mae cysylltiadau'n cael eu gwneud gyda nhw er mwyn gwella gwaith atal yn y maes hwnnw.

7.3 Gofynnodd un Aelod a fu unrhyw gynnydd yn y niferoedd o ran recriwtio diffoddwyr tân ar alwad a chafwyd yr ymateb nad oedd yr wybodaeth hon wrth law; fodd bynnag, byddai'r wybodaeth yn cael ei chanfod a'i chyhoeddi yn dilyn y cyfarfod. Cadarnhawyd y bu cynnydd net ar draws y Gwasanaeth, a hynny'n ychwanegol at y rhai oedd yn cymryd lle'r rheiny a gollwyd yn naturiol ac yr oedd y Gwasanaeth eisoes yn ymwybodol ohonynt.

7.4 Gofynnodd y Cadeirydd am ddadansoddiad o argaeledd dyddiol y system dyletswydd ar alwad ar draws y Gwasanaeth i'w roi i'r Aelodau er mwyn iddynt allu asesu effeithiolrwydd darpariaeth y system. Cadarnhawyd y byddai hyn yn cael ei ddarparu.

**7.5 PENDERFYNWYD:**

**i) Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

## 8.0 STRATEGAETH CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT DDRAFFT 2024-29

8.1 Cyflwynodd y PSTC Justin Evans bapur y Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Ddrafft 2024-29 a oedd yn rhoi manylion i'r Aelodau am ymrwymiadau'r Gwasanaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac yn nodi cynigion ar sut i'w cyflawni.

8.2 Cadarnhawyd bod nifer o Aelodau wedi datgan eu diddordeb i ddod yn Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a byddai enw'r enwebai llwyddiannus yn cael ei gyhoeddi'n fuan.

8.3 Gofynnodd un Aelod a oedd yr Undebau wedi bod yn rhan o'r gwaith o lunio'r strategaeth a chadarnhawyd eu bod wedi bod yn rhan o'r gwaith hwnnw, drwy gyfarfodydd rheolaidd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

**8.4 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr adroddiad; a**
**ii) Chymeradwyo'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ddrafft ar gyfer ymgynghori ag Aelodau'r Awdurdod Tân, staff a rhanddeiliaid perthnasol cyn ei chymeradwyo yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ym mis Ebrill 2024.**

**9.0 DATGANIAD POLISI TÂL**

9.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur y papur Datganiad Polisi Tâl er mwyn hysbysu'r Aelodau o'u cyfrifoldebau yn deillio o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (y Ddeddf).

9.2 Dywedwyd wrth yr aelodau bod hon yn ddogfen flynyddol yr oedd angen ei chyhoeddi bob blwyddyn.

**9.3 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi gofynion Deddf Lleoliaeth 2011; a**
**chymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.**

**10 MATERION BRYS**

10.1 Nid oedd materion brys i'w codi.

Daeth y cyfarfod i ben am: 14:53.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **17 Mehefin 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Pwnc | **Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Tynnu sylw Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) at y gwaith ymchwil a gwerthuso sy'n cael ei wneud ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol o'r drafodaeth sy'n digwydd ar hyn o bryd ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno bwriad Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, sydd hefyd yn gyfrifol am Dân ac Achub yng Nghymru, i'r Aelodau ac yn eu cyfeirio at farn ac argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a gyhoeddwyd ar 6 Mehefin 2024.

## ARGYMHELLIAD

3 Bod yr Aelodau'n nodi:

i) Y gwaith a gychwynnwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio gydag Awdurdodau Lleol De Cymru; ac

ii) Ail ran yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol sy'n egluro eu barn am newid y trefniadau llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

## GWYBODAETH

4 Sefydlwyd y trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru drwy dri Gorchymyn Cyfuno ym 1996. Yn sgil y rhain sefydlwyd y tri Awdurdod Tân presennol a'r dull cyllido cyfunol sy'n gweithio drwy godi ardoll ar bob Awdurdod Lleol cyfansoddol.

5 Dim ond un model llywodraethu yw hwn, ond o leiaf mae'n gyson ar draws Cymru gyfan. Yn draddodiadol, bu nifer o fodelau llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yn y DU, megis y model Cyngor Sir, Awdurdodau Cyfunol ac Awdurdodau Metropolitanaidd. Yn y blynyddoedd diweddar mae hyn wedi'i rannu ymhellach gyda modelau Maerol, Comisiynwyr Heddlu, Troseddu a Thân, Corfforaeth Unigol yn Llundain a Byrddau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

6 Dros y blynyddoedd bu rhywfaint o drafod ynghylch a yw'r model presennol yng Nghymru yn addas ar gyfer y dyfodol ac arweiniodd hyn at Bapur Gwyn yn 2018. Yn y pen draw, penderfynwyd aros gyda'r model llywodraethu presennol ond ymgymryd â gwaith pellach ynghylch cyllido, ond nid aeth hyn yn ei flaen oherwydd Covid.

7 Mae'r mater hwn wedi ei ailgodi o ganlyniad i'r Adolygiad annibynnol o Ddiwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a phenderfyniad Llywodraeth Cymru i ymyrryd drwy ddisodli'r Awdurdod Tân gyda Chomisiynwyr.

8 Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio wedi ysgrifennu at Arweinwyr Cynghorau yn Ne Cymru yn ddiweddar yn nodi ei hawydd i weithio ar y cyd i ddatblygu model llywodraethu newydd, cliriach a mwy effeithiol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub. Gweler Atodiad 1. Yn ei llythyr mae hi wedi gofyn saith cwestiwn i ysgogi'r broses o feddwl. Mae copi o'r llythyr hwn hefyd wedi cael ei anfon at Arweinwyr holl Gynghorau Cymru.

9 Ar 6 Mehefin 2024, cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ei adroddiad o'r enw "Seinio'r Larwm: Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub". Mae'r ugain tudalen olaf yn adlewyrchu eu barn ynghylch trefniadau llywodraethu.

10 Yn ogystal, mae Archwilio Cymru wrthi'n ysgrifennu adroddiad i adlewyrchu eu sylwadau hwy ynghylch y trefniadau llywodraethu a bydd yn cael ei rannu gyda'r Aelodau ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae llywodraethu da yn ein galluogi i gyflawni ein Hamcanion Llesiant. |
| Cyllideb | Nid yw'r rhain yn hysbys hyd yma. |
| Cyfreithiol | Bydd unrhyw newid yn y Gorchymyn Cyfuno yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. |
| Staffio | Nid oes ystyriaethau staffio y gwyddom amdanynt. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Nid oes unrhyw faterion y gwyddom amdanynt yn codi. |
| Risgiau | Y risg bod amser ac adnoddau'n cael eu dargyfeirio i ddatblygu a phrofi modelau llywodraethu amgen, neu ar y llaw arall y risg o fethiant o ran llywodraethu da |

**Julie James AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/05145/24

Arweinwyr Cynghorau
Awdurdodau Lleol De Cymru

naomi.alleyne@wlga.gov.uk

31 Mai 2024

Annwyl Arweinwyr Cynghorau

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Ebrill ynglŷn â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i benodi Comisiynwyr i oruchwylio Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC). Roeddwn yn falch o'r cyfle i gwrdd â'r rhan fwyaf ohonoch ar 16 Mai i drafod y materion a godwyd gennych.

Fel y dywedais yn y cyfarfod hwnnw, mae eich mewnbwn yn hanfodol o ran datrys y problemau yn GTADC ac edrychaf ymlaen at weithio'n agos gyda chi a'r gymuned llywodraeth leol ehangach i ddatblygu'r datrysiad hwnnw. Ymrwymais i drafod yn rheolaidd gyda chi, ac rwy'n disgwyl i'r Comisiynwyr wneud yr un modd.

Roedd llawer o'r problemau o fewn GTADC yn ymwneud â chamymddwyn a rheoli gwael gan swyddogion ac mae'n ofid imi fod unrhyw Aelodau unigol wedi teimlo eu bod yn cael eu beirniadu'n annheg gan benodiad y Comisiynwyr. Gallai cyfathrebu ynghylch y penderfyniad hwnnw fod wedi bod yn well, ac rwy'n ymrwymo i sicrhau y bydd yn well yn y dyfodol. Byddaf hefyd yn ysgrifennu llythyr tebyg at Aelodau GTADC a oedd yn eu swyddi ar adeg yr ymyrraeth.

Serch hynny, gwnaeth y sefyllfa hefyd amlygu problemau o fewn y system lywodraethu bresennol yn y sector ledled Cymru. Unwaith eto, nid wyf yn credu bod hynny'n cynrychioli methiannau ar ran Aelodau unigol yn gymaint â gwendidau systemig yn y model presennol. Fel y dywedais yn y cyfarfod, gallai'r rhain gynnwys: diffyg eglurder ynghylch pwrpas Awdurdod Tân ac Achub mewn perthynas â Gwasanaeth Tân ac Achub; gormod o aelodau; anghydbwysedd dealladwy o ran arbenigedd rhwng Aelodau a swyddogion o ystyried natur dechnegol llawer o waith diffoddwyr tân; a chefnogaeth, hyfforddiant a thâl annigonol i'r Aelodau. Mae diffyg atebolrwydd yn y model ariannol presennol, sy'n dibynnu ar godi cyfraniadau gan awdurdodau lleol, ac mae angen ailedrych ar hwnnw hefyd. Byddai hefyd yn destun gofid pe bai penodiadau i fod yn aelodau Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu hystyried yn llai pwysig rhywsut na phenodiadau i gabinetau Cynghorau neu i gadeiryddiaeth pwyllgorau craffu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae arnaf eisiau gweithio gyda llywodraeth leol ledled Cymru gyda'i gilydd i ddatblygu model llywodraethu newydd, cliriach a mwy effeithiol yn y sector.  Rwy'n bwriadu ymweld â phob awdurdod lleol yn ystod y misoedd nesaf, ac rwyf hefyd yn gobeithio cymryd rhan yn eich cyfarfodydd rhanbarthol a mynd i gyfarfodydd yr Awdurdodau Tân ac Achub.  Mae'r angen am fodel newydd yn fater o frys arbennig yn Ne Cymru, gan y bydd angen iddo fod ar waith i gefnogi diwedd yr ymyrraeth. Rwy'n disgwyl i'r ymyrraeth ddod i ben cyn gynted â phosibl, ac erbyn diwedd tymor presennol y Senedd fan bellaf.  Mae'n ddigon posibl y bydd angen rhyw fath o drefn gysgodol i'r model newydd er mwyn caniatáu hynny.  Fodd bynnag, rwy'n disgwyl defnyddio'r dull gweithredu newydd â'r ddau Awdurdod Tân ac Achub arall hefyd.

I gychwyn ar y gwaith hwnnw, pan wnaethom gwrdd ar 16 Mai, dywedais y byddwn yn croesawu sylwadau ysgrifenedig gennych.  Caiff, a dylai, y rheini ymdrin ag unrhyw fater yr ystyriwch yn berthnasol, ond efallai y byddai'n arbennig o ddefnyddiol canolbwyntio ar y canlynol:

- Beth ddylai pwrpas cyffredinol yr Awdurdod Tân ac Achub fod (e.e. arwain y Gwasanaeth a/neu graffu ar swyddogion)
- Y nifer delfrydol o aelodau ar gyfer Awdurdod tân ac Achub
- Sut y dylid penodi'r Aelodau hynny (e.e. eu henwebu gan awdurdodau lleol a/neu Weinidogion Cymru, a/neu eu cyfethol gan yr Awdurdod Tân ac Achub
- Y gefnogaeth, hyfforddiant a thâl y dylai Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub eu derbyn
- Y strwythurau mewnol y dylai fod gan Awdurdodau Tân ac Achub, ee pwyllgorau craffu
- Y berthynas o ran atebolrwydd y dylai Awdurdodau Tân ac Achub ei chael gydag awdurdodau lleol, cymunedau a Llywodraeth Cymru
- Beth ddylai'r trefniadau cyllido fod (e.e. ardollau, grantiau Llywodraeth Cymru neu braeseptau treth gyngor), a sut i sicrhau atebolrwydd o ran penderfyniadau ynghylch cyllideb a gwariant.

Ar y cam cynnar iawn hwn nid wyf wedi dod i gasgliad ar unrhyw un o'r materion hyn, ac rwy'n eu cynnig i ddarparu strwythur i'n trafodaethau yn unig.  Cytunwyd ar 16 Mai y byddai CLlLC yn cydgysylltu eich ymatebion, ac rwy'n croesawu unrhyw gyfraniad a wnewch, yn ddelfrydol erbyn diwedd mis Mehefin.  Wedyn, byddaf yn ceisio trefnu trafodaethau pellach gyda chi, yn unigol ac ar y cyd.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at rai eraill a oedd yn bresennol yn ein cyfarfod, ac at y Comisiynwyr.  Wrth ystyried y goblygiadau ledled Cymru, rwyf hefyd yn ei gopïo at bob Arweinydd arall ac i Gadeiryddion Awdurdod Tân ac Achub y Gogledd ac Awdurdod Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio
Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **17 Mehefin 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad: Blwyddyn Ariannol 2023/24** |

**Pwrpas yr Adroddiad**

1 Darparu gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a gweithgareddau digwyddiadau nodedig eraill.

**Crynodeb Gweithredol**

2 Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, aeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) at 5,932 o achosion brys. Mae hyn yn gynnydd o 0.6% o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol (5,897).

3 Gostyngodd nifer y tanau damweiniol yn y cartref (TDC) yr aethpwyd atynt yn ystod y cyfnod adrodd ychydig i 337, o gymharu â 344 yn 2022/23. Fodd bynnag, roedd cyfanswm o chwe marwolaeth ddamweiniol mewn tanau yn y cartref yn 2023/24, yn dilyn dim marwolaethau mewn tanau yn y cartref yn 2022/23.

4 Roedd cynnydd hefyd yn nifer yr anafiadau difrifol, o dri i saith. Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i ddarparu ymyriadau atal tân a mentrau i gefnogi diogelwch tân yng nghartrefi a chymunedau Gogledd Cymru.

5 Yn ystod y cyfnod adrodd, bu gostyngiad yn nifer y tanau gwyllt i 14 o gymharu â 35 yn y flwyddyn flaenorol. Aethpwyd atynt gan gyfanswm cyfunol o 54 o gerbydau am dros 476 awr.

6 Aethpwyd at 2,901 o alwadau diangen yn ystod y cyfnod adrodd, sef cynnydd o 8.4% o gymharu â'r flwyddyn ariannol diwethaf. Roedd hyn oherwydd cynnydd o 15.8% yn nifer y galwadau tân oherwydd offer o 1,532 i 1,774. Derbyniodd y Gwasanaeth 1,587 o alwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig (LTA) mewn adeiladau masnachol, aethpwyd at wyth ac nid aethpwyd at 1,579 yn unol â'n polisi.

7 Mae gan yr Awdurdod bolisi sy'n penderfynu a yw’n mynd at larymau tân awtomatig. Ni fydd GTAGC yn anfon ymateb brys i larymau tân awtomatig sy’n canu mewn eiddo nad ydynt yn gartrefi oni bai y derbynnir galwad 999 wrth gefn yn cadarnhau bod tân.

8 Yn ogystal, derbyniwyd 498 o alwadau LTA mewn ysbytai, aethpwyd at 208 (41.8%) ac nid aethpwyd at 290 (58.2%).

9 Roedd cynnydd yn nifer y tanau yr aethpwyd atynt yng Ngharchar EF y Berwyn o 19 i 26.

10 Roedd argaeledd pwmp yn unol â'r targed argaeledd 18 pwmp yn 100% yn ystod y cyfnod adrodd.

**Argymhelliad**

11 Argymhellir bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**Gwybodaeth**

12 **Yr Holl Ddigwyddiadau**
Aethpwyd at **5,932** o ddigwyddiadau o gymharu â **5,897** yn ystod 2022/23.

13 **Tanau**
Roedd gostyngiad o 17.8% yn nifer y tanau yr aethpwyd atynt yn ystod y cyfnod adrodd i **1,654** o gymharu â 2,011 yn 2022/23.

14 **Tanau Glaswelltir, Coetir a Chnydau**
Gostyngodd nifer y tanau glaswelltir, coetir a chnydau 52.3% (472 i **225**) o gymharu â’r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Gostyngodd nifer y tanau glaswelltir, coetir a chnydau damweiniol eilaidd (450 i **215**), a thanau ‘glaswelltir, porfa, pori ac ati’ (94 i 36), a ‘rhostir neu weundir’ (107 i 49) oedd y prif gyfranwyr. Cofnodwyd gostyngiadau hefyd yn nifer y tanau ‘gwrychoedd’ (29 i 20), a ‘phrysgwydd coed (yn cynnwys coed sengl nad ydynt yn yr ardd’ (31 i 10), ond roedd cynnydd yn nifer y tanau ‘Llystyfiant ymyl trac rheilffordd’ (Dim i bedwar).

15 **Tanau Gwyllt**
Yn ystod y cyfnod adrodd, bu gostyngiad yn nifer y tanau gwyllt yr aethpwyd atynt (35 i 14) o gymharu â’r un cyfnod yn 2022/23, lle anfonwyd 54 cerbyd o gymharu â 47. Gostyngodd yr amser a dreuliwyd yn y digwyddiad i 476 awr, o gymharu â 628 awr yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

16 **Prif Danau**

Gostyngodd prif danau 7.6% (854 i **789**) o gymharu â'r un cyfnod yn 2022/23, ac roeddent 6.7% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 846. Gostyngodd prif danau damweiniol 8.2% (711 i 653), ac roeddent 5.9% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 694. Gostyngodd nifer y prif danau bwriadol (143 i 136) o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac roeddent 10.5% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 152.

17 **Tanau Eilaidd**

Gostyngodd tanau eilaidd, a oedd 14.3% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 908, 25.0% (1037 i 778) yn bennaf oherwydd gostyngiad o 32.2% mewn tanau eilaidd damweiniol (661 i 448). Cofnodwyd gostyngiad mewn tanau 'glaswelltir, coetir a chnydau' eilaidd damweiniol (306 i 146) a thanau 'eraill yn yr awyr agored (gan gynnwys tir)' (205 i 164).

Gostyngodd tanau eilaidd bwriadol 12.2% (376 i 330), yn bennaf oherwydd gostyngiad o 50.2% mewn tanau 'glaswelltir, coetir a chnydau' (144 i 69). Fodd bynnag, cofnodwyd cynnydd mewn tanau 'Strwythurau awyr agored' (155 i 176).

18 **Tanau Simnai**

Gostyngodd tanau simnai 27.5% o gymharu â'r un cyfnod yn 2022/23 (120 i 87). Mae hyn yn 34.1% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 132.

19 **Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC)**

Aeth y Gwasanaeth at 2.0% yn llai o TDC (344 i 337) yn ystod blwyddyn Ariannol 2023/24.

Roedd cynnydd a gostyngiad ymhlith prif achosion TDC.
Roedd cynnydd mewn 'Eitemau llosgadwy'n rhy agos i ffynhonnell wres (neu dân)', (64 i 76). 'Nam ar offer neu gyfarpar', (27 i 35). 'Coginio – padell tsips/ ffrïwr saim dwfn (10 i 15)'. Cofnodwyd gostyngiad mewn 'Coginio – coginio arall' (78 i 61), a 'Cyflenwad tanwydd diffygiol – trydan' (34 i 29), o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

Cofnodwyd cynnydd mewn TDC o fewn 'Byngalo – deiliadaeth sengl', (40 i **58**), ac o fewn 'Fflat/Maisonette wedi'i throsi - amlfeddiannaeth', (19 i **22**). Cofnodwyd gostyngiad o fewn 'Tŷ – deiliadaeth sengl', (198 i **191**), ac o fewn 'Fflat/Maisonette wedi'i hadeiladu'n bwrpasol – amlfeddiannaeth', (74 i **58**), o gymharu â 2022/23. Mae TDC yn parhau i fod 8.4% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 368.

20 **Marwolaethau/Anafiadau mewn TDC**
Roedd chwe marwolaeth mewn TDC yn 2023/24, tair yn Ch.2, un yn Ch.3, a dwy yn Ch.4, o gymharu â dim un farwolaeth a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Roedd tri o'r marwolaethau yng Nghonwy, dwy yng Ngwynedd ac un yn Sir y Fflint.

Roedd pob un o'r marwolaethau yn y categori mwyaf agored i niwed, gyda phob un yn 65 oed neu'n hŷn, y mae Archwiliadau Diogel ac Iach yn canolbwyntio arnynt ar hyn o bryd,

Oedran cyfartalog yr anffodusion oedd 78 oed, gyda thri yn wryw (oedran cyfartalog yn 77 oed) a thair benyw (oedran cyfartalog yn 80 oed). Roedd tri o'r anffodusion wedi derbyn Archwiliadau Diogel ac Iach yn flaenorol, bu tair ymgais aflwyddiannus i gysylltu ag un o'r anffodusion ac nid oedd y ddau arall yn hysbys i GTAGC.

Bu cynnydd yn nifer yr anafusion mewn TDC o 71 i 72, gyda saith person yn dioddef anafiadau difrifol o gymharu â thri yn ystod 2022/23.

21 **Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi**
Roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol mewn 290 o'r 337 o danau damweiniol yn y cartref yn ystod y flwyddyn ariannol (86.1%). Cafwyd cynnydd o 176 i 186 mewn TDC lle'r oedd synhwyrydd mwg/gwres wedi ei osod, wedi ei weithredu ac wedi seinio'r larwm.

22 Bu gostyngiad o 43 i 32 yn nifer y digwyddiadau lle'r oedd synhwyrydd mwg wedi'i osod, wedi gweithio ond heb seinio'r larwm.

23 Cafwyd cynnydd yn nifer y TDC lle nad oedd unrhyw synhwyrydd wedi'i osod, o 44 i 47. Lle'r oedd synhwyrydd wedi'i osod ac nad oedd wedi gweithio, roedd nifer y digwyddiadau wedi gostwng i 72 o 81.

24 **Prif Danau Bwriadol mewn Adeiladau Amhreswyl**
Bu cynnydd o 48 i 50 mewn prif danau bwriadol mewn adeiladau amhreswyl yr aethpwyd atynt.

25 **Galwadau Diangen**
Parhaodd y tuedd at i fyny mewn galwadau diangen gyda'r Gwasanaeth yn mynd at **2,901** o alwadau diangen – 8.4% yn fwy nag yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2,675), a 15.9% yn fwy na'r cyfartaledd tair blynedd o 2,502. Bu cynnydd o 15.8% (1,532 i **1,774**) yn y rhai a oedd wedi tarddu o systemau Larymau Tân Awtomatig (LTA) ac roeddent yn cynrychioli 61.2% o'r galwadau diangen yr aethpwyd atynt.

26 **Larymau Tân Awtomatig (LTA) Amhreswyl**
Cynyddodd LTA Amhreswyl 4.7% (254 i 266). Y prif achosion dros LTA Amhreswyl yn gweithredu oedd eu bod yn 'ddiffygiol' (95 i 128) a 'llwch' (16 i 26). Fodd bynnag, cofnodwyd gostyngiad o ran 'wedi'i gychwyn yn ddamweiniol/yn ddiofal' (40 i 27).

27 **LTA Preswyl-Arall**

Roedd cynnydd o 0.4% mewn LTA 'preswyl-arall' (113 i **118**), gyda 'llety nyrsys/meddygon' yn dangos gostyngiad sylweddol (25 i 16). Fodd bynnag, cynyddodd 'Cartref preswyl' (15 i 26), a chynyddodd 'Neuaddau Preswyl Myfyrwyr' (20 i 33).

Er mai prif achos gweithredu mewn 'preswyl-arall' oedd 'diffygiol', a welodd gynnydd bach (26 i 34), gwelodd 'coginio/llosgi tost' ostyngiad ymylol (30 i 29).

Cafwyd gostyngiadau hefyd o ran 'llwch' ac 'wedi'i gychwyn yn ddamweiniol/diofal' o (naw i bump), ac (13 i naw) yn y drefn honno.

28 **LTA yn y Cartref**

Parhaodd LTA mewn cartrefi ar duedd tuag i fyny, gan gynyddu 19.1% (1,165 i 1,387), gyda 'fflat/maisonette pwrpasol - amlfeddiannaeth' yn cyfrannu'n bennaf at gyfanswm y digwyddiadau, gan godi (361 i 492), ac yna 'byngalo – meddiannaeth sengl' yn cynyddu (340 i 410).

Cynyddodd 'tŷ – deiliadaeth sengl' (338 i 377), ac arhosodd 'Fflat/maisonette wedi'i throsi – amlfeddiannaeth' yr un peth yn 42. Fodd bynnag, cofnodwyd gostyngiadau mewn 'tai gwarchod hunangynhwysol', (74 i 56).

O'r 1,387 o LTA yn y Cartref, 'coginio/llosgi tost' oedd prif achos eu gweithredu, gan gynyddu (600 i 738). Cofnodwyd ychydig o gynnydd hefyd mewn 'diffygiol' (255 i 290), a 'llwch' (37 i 40), ac 'wedi'i gychwyn yn ddamweiniol/diofal' (60 i 70). Gwelodd 'ysmygu' ychydig o gynnydd hefyd (22 i 27).

29 **Galwadau Diangen Diffuant**

Gostyngodd galwadau diangen diffuant o 1,091 i 1,087. Fodd bynnag, cofnodwyd cynnydd o 23.2% mewn 'Annedd' (431 i 531).

Cofnodwyd gostyngiad mewn 'Glaswelltir, coetir a chnydau' o 37.1% (116 i 73) oherwydd gostyngiad mewn 'llosgi a reolir' (88 i 60). Bu gostyngiad hefyd mewn 'Awyr agored eraill (gan gynnwys tir)' (243 i 206).

30 **Galwadau Diangen Maleisus**

Gostyngodd nifer y galwadau diangen maleisus 24.5% o 53 i 40 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

31 **Galwadau Gwasanaeth Arbennig**

Cynyddodd galwadau gwasanaeth arbennig 13.7% o 1,211 i 1,377 yn ystod yr un cyfnod â'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac roeddent 84.6% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 746. Gellir priodoli hyn i'r newid o ran polisi gyda'r nod o gynyddu presenoldeb y gwasanaeth tân ac achub yn y gymuned pan fo angen.

32 **Digwyddiadau Gwrthdrawiadau ar y Ffordd (GTFf)**
Aeth y Gwasanaeth at 7.3% yn fwy o GTFf (234 i 251), lle'r oedd 61 (24.3%) yn cynnwys rhyddhau neu dynnu pobl. Lle cafodd y Gwasanaeth ei alw i wneud cerbyd yn ddiogel, aethpwyd at 2.8% yn fwy o ddigwyddiadau (104 i 107).

Er i'r Gwasanaeth fynd at fwy o GTFf, gostyngodd canran y GTFf a oedd yn cynnwys rhyddhau neu dynnu pobl (29.5% i 26.3%), sy'n is na'r cyfartaledd tair blynedd o 33.3%.

33 **Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig 'Heblaw GTFf'**
Cynyddodd y Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig 'Heblaw GTFf' 41.0% (977 i 1,378). Y prif gyfrannwr at y cynnydd oedd y categori 'Cynorthwyo Asiantaethau Eraill' a gynyddodd 35.2% (355 i 480). Bu cynnydd sylweddol o 120.8% yn nifer y digwyddiadau 'llifogydd' yr aethpwyd atynt (53 i 117).

Cofnodwyd gostyngiadau o ran 'dim gweithredu (nid galwad diangen)' (80 i 61), 'rhyddhau o lifft' (87 i 48), ac 'Achub arall/ rhyddhau pobl' (92 i 72).

34 **Archwiliadau Diogel ac Iach (ADI)**
Cwblhaodd y Gwasanaeth 19,859 ADI ac roedd 6,032 (30.4%) ohonynt yn ADI blaenoriaeth uchel. O'r ADI blaenoriaeth uchel a gwblhawyd, roedd 3,290 (54.5%) yn atgyfeiriadau gan asiantaeth bartner.

35 **Perfformiad Gorsafoedd**
Cyflawnwyd argaeledd 18 pwmp wedi'i gynllunio ar bob un o 365 diwrnod (100%) 2023/24.

36 **Absenoldeb Salwch**
Cofnodwyd 458 achos o absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn cyfateb i 5.13% o amser a gollwyd.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n helpu'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Corfforaethol 2021-24. |
| Cyllideb | Mae'n helpu i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posib ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch digwyddiadau annisgwyl. |
| Cyfreithiol | Mae'n helpu'r Awdurdod i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Peidio â bodloni'r gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a'i fonitro, a allai effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB**
**GOGLEDD CYMRU**

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Adroddiad Monitro Perfformiad

**Ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2023/24**


**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallent fod yn destun mân newidiadau.**

# Cynnwys

1 Yr Holl Ddigwyddiadau ....... 1
2 Tanau yn ôl Categori a Chymhelliant ....... 2
3 Prif Danau, yn ôl Math o Eiddo a Chymhelliant ....... 3
4 Tanau Damweiniol yn y Cartref ....... 5
5 Marwolaethau ac Anafiadau o Danau Damweiniol yn y Cartref ....... 6
6 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC) ....... 7
7 Galwadau Diangen ....... 9
8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig ....... 10
9 Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd a Thynnu'n Rhydd/Rhyddhau ....... 11
10 Monitro yn erbyn Amcan Gwella a Llesiant Un ....... 12
11 Argaeledd 18 Pwmp wedi'i Gynllunio ....... 14
12 Absenoldeb Salwch ....... 15
Geirfa ....... 19

## 1 Yr Holl Ddigwyddiadau

**1.1** Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, aeth y Gwasanaeth at 5,932 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen, sef newid o 0.6% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (5,897).




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma | % y newid dros y flwyddyn hyd yma | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | **2023-24** | **1,638** | **1,552** | **1,417** | **1,285** | **5,932** | ↓ 0.6% | 5,317 | ↑ 11.56% |
| | 2022-23 | 1,575 | 1,878 | 1,211 | 1,233 | 5,897 | | | |
| Yr holl danau | **2023-24** | **604** | **408** | **326** | **316** | **1,654** | ↓ 17.8% | 1,887 | ↓ 12.3% |
| | 2022-23 | 577 | 719 | 337 | 378 | 2,011 | | | |
| Yr holl ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig | **2023-24** | **332** | **331** | **390** | **324** | **1,377** | ↑ 13.7% | 928 | ↑ 48.7% |
| | 2022-23 | 327 | 371 | 267 | 246 | 1,211 | | | |
| Yr holl alwadau diangen | **2023-24** | **702** | **813** | **741** | **645** | **2,901** | ↑ 8.4% | 2,502 | ↑ 15.9% |
| | 2022-23 | 671 | 788 | 607 | 609 | 2,675 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.


## 2 Tanau yn ôl Categori a Chymhelliant

**2.1** Aethpwyd at gyfanswm o 1,654 o danau yn 2023/24; gostyngiad o 17.8% o 2,011 yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

**2.2** **Prif danau –** Bu gostyngiad o 7.9% yn nifer y prif danau (854 i 789) o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol ac roeddent 6.7% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 846.

**2.3** **Tanau eilaidd –** Bu gostyngiad o 25.0% yn nifer y tanau eilaidd (1,037 i 778), sef 12.6% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 908.

**2.4** **Tanau simnai –** Cafwyd gostyngiad yn nifer y tanau simnai (120 i 87) o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol, sef 34.1% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 132.




| | Prif Danau | | | | | Tanau Eilaidd | | | | | Tanau Simnai | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
| Bwriadol | 248 | 170 | 143 | 143 | 136 | 405 | 276 | 329 | 376 | 330 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Damweiniol | 719 | 634 | 738 | 711 | 653 | 433 | 533 | 550 | 661 | 448 | 145 | 157 | 120 | 120 | 87 |
| Cyfanswm | 967 | 804 | 881 | 854 | 789 | 838 | 809 | 879 | 1,037 | 778 | 145 | 157 | 120 | 120 | 87 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma | % y newid dros y flwyddyn hyd yma | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Danau | **2023-24** | **235** | **205** | **190** | **159** | **789** | ↓ 7.6% | 846 | ↓ 6.7% |
| | 2022-23 | 226 | 236 | 193 | 199 | 854 | | | |
| Tanau Eilaidd | **2023-24** | **356** | **200** | **108** | **114** | **778** | ↓ 25.0% | 908 | ↓ 14.3% |
| | 2022-23 | 332 | 476 | 100 | 129 | 1,037 | | | |
| Tanau simnai | **2023-24** | **13** | **4** | **27** | **43** | **87** | ↓ 28.0% | 132 | ↓ 34.1% |
| | 2022-23 | 19 | 7 | 44 | 50 | 120 | | | |

* Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i gefnogi lleihau digwyddiadau tân yn ystod y flwyddyn ariannol:**

- Roedd nifer y ADI a gwblhawyd ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yn 19,859, ac yn uwch na'r targed, gyda 4,838 o atgyfeiriadau gan asiantaethau. Cwblhawyd 12,500 o'r archwiliadau gan griwiau gweithredol.

- Data Caerwysg: Mae pob Gwylfa bellach yn cwblhau gweithgaredd drws-i-ddrws am o leiaf awr y dydd, gan ddefnyddio'r data a ddarparwyd i helpu i sicrhau dull wedi'i dargedu'n well tuag at bobl dros 65 oed. Ganol Ch.4 gwellwyd y data ymhellach trwy gyflwyno dotiau oren i systemau mapio i ddynodi'r bobl hynny dros 70 oed a dotiau coch ar gyfer y rhai dros 75 oed.

- Mae Rheolwyr Partneriaeth yn parhau i feithrin perthnasoedd ag asiantaethau allanol i annog atgyfeiriadau o ansawdd uchel.

- Cynhaliwyd 3ydd "digwyddiad llesiant" ar gyfer tîm atal tân y Gwasanaeth Tân (gyda 22 yn mynychu) yn ystod Ch.4, mae hyn yn parhau i gynnig cefnogaeth i'n timau a sicrhau gweithgaredd ac allbwn lefel uchel.

- Adolygwyd ac adnewyddwyd contractau gyda Cartrefi Conwy a Gofal a Thrwsio, gan barhau felly derbyn atgyfeiriadau lefel uchel a derbyn taliad cyflog 50%.


- Mae Grŵp Llywio'r Ymgyrch wedi parhau i weithio gyda Chyfathrebu Corfforaethol i hyrwyddo diogelwch a negeseuon ynghylch Tanau Gwyllt yn rhagweithiol ar draws pob platfform cyfryngau. Bu cryn sylw yn y wasg ynghylch tanau sychwyr dillad yn arwain at bostiadau cyfryngau cymdeithasol, cyfweliadau â staff y GTA a phreswylwyr gan y BBC ac ymgyrchoedd lleol a chyfweliadau radio.

- Mae cynlluniau ymyrraeth ar gyfer cynnau tân bwriadol yn parhau i gael eu hwyluso yn fewnol a chan PentrePeryglon; Yn ystod 2023/24, cyflwynwyd 13 sesiwn FACE (Addysg Ymwybyddiaeth Tân i Blant) ac un ymyriad i oedolion gan y Tîm Lleihau Tanau Bwriadol a chyflwynwyd 34 cwrs Tân Saff gan PentrePeryglon.

## 3 Prif Danau, yn ôl Math o Eiddo a Chymhelliant

**3.1** Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, dechreuwyd 136 o brif danau yn fwriadol, o gymharu â 143 yn 2022/23.

**3.2** Roedd 60 tân bwriadol yng Ngharchar EF y Berwyn, o gymharu â 46 dros yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Aeth y Gwasanaeth at 26 o'r tanau yma.




| | Adeilad Annedd 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 383 | 387 | 429 | 380 | 360 |
| Bwriadol | 27 | 27 | 29 | 36 | 23 |
| Damweiniol | 356 | 360 | 400 | 344 | 337 |

| | Adeilad Amhreswyl 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 231 | 176 | 179 | 183 | 153 |
| Bwriadol | 111 | 67 | 54 | 48 | 50 |
| Damweiniol | 120 | 109 | 125 | 135 | 103 |

| | Adeilad Preswyl arall 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 20 | 14 | 20 | 25 | 25 |
| Bwriadol | 2 | 4 | 2 | 4 | 9 |
| Damweiniol | 18 | 10 | 18 | 21 | 16 |

| | Cerbyd ('Ffordd', a 'Thrafnidiaeth arall') 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 282 | 187 | 209 | 211 | 209 |
| Bwriadol | 91 | 60 | 47 | 42 | 41 |
| Damweiniol | 191 | 127 | 162 | 169 | 168 |


| | Awyr agored 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 51 | 40 | 44 | 55 | 42 |
| Bwriadol | 17 | 12 | 11 | 13 | 13 |
| Damweiniol | 34 | 28 | 33 | 42 | 29 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm flwyddyn hyd yma | % y newid dros y flwyddyn hyd yma | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl brif danau bwriadol | **2023-24** | **40** | **36** | **32** | **28** | **136** | ↓ 4.9% | 152 | ↓ 10.5% |
| | 2022-23 | 41 | 49 | 24 | 29 | 143 | | | |
| Yr holl brif danau damweiniol | **2023-24** | **195** | **169** | **158** | **131** | **653** | ↓ 8.2% | 694 | ↓ 5.9% |
| | 2022-23 | 185 | 187 | 169 | 170 | 711 | | | |

* Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 4 Tanau Damweiniol yn y Cartref

**4.1** Aeth y Gwasanaeth at 337 o danau damweiniol yn y cartref yn 2023/24; saith (2.0%) yn llai nag yn y flwyddyn ariannol flaenorol (344). Arhosodd Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC) yn ystod y cyfnod hwn 8.4% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 368.




| Categori | Blwyddyn | Ch. 1 | Ch. 2 | Ch. 3 | Ch. 4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol yn y cartref | **2023-24** | **91** | **70** | **106** | **70** | **337** | ↓ 2.0% | 368 | ↓ 8.4% |
| | 2022-23 | 81 | 81 | 97 | 85 | 344 | | | |

* Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i ddeall demograffeg a risg ein cymuned ymhellach yn ystod y flwyddyn flaenorol:**

- Adolygwyd a diwygiwyd y "system" sgorio yn ystod Ch.4 ac mae bellach yn sicrhau bod gan y sgorio fwy o bwysoliad i oedran.

- Rhoddwyd arweiniad ychwanegol i weinyddwyr i sicrhau cadw'n dynnach at y sgorio er mwyn sicrhau mai dim ond y rhai mwyaf agored i niwed sy'n cael eu hystyried yn flaenoriaeth uchel.

- Mae Rheolwyr Partneriaeth yn parhau i archwilio perthnasoedd newydd gyda phartneriaid allanol i nodi'r bobl hynny sydd fwyaf agored i dân; a darparu cyngor ac ymyriadau addas iddynt.

- Mae adolygiad o ddogfennau arweiniad ar y gweill gan gynnwys dogfen weithdrefn newydd ar gyfer Archwiliadau Diogel ac Iach.

## 5 Marwolaethau ac Anafiadau o Danau Damweiniol yn y Cartref

**5.1** Roedd chwe marwolaeth TDC yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, o gymharu â dim un farwolaeth yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Roedd saith anaf difrifol a 19 mân anaf, o gymharu â thri a 23 yn y drefn honno. Cynyddodd nifer yr archwiliadau rhagofalus (20 i 23), a gostyngodd nifer y bobl a oedd angen cymorth cyntaf yn y fan a'r lle (o 25 i 17).

Roedd tair o'r marwolaethau yng Nghonwy, dwy yng Ngwynedd ac un yn Sir y Fflint.

Roedd pob un o'r marwolaethau yn y categori mwyaf agored i niwed, gyda phob un yn 65 oed neu'n hŷn, sydd ar hyn o bryd yn bwyslais Archwiliadau Diogel ac Iach.

| Difrifoldeb yr anaf | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwiliadau Rhagofalus | 19 | 33 | 31 | 20 | 23 |
| Cymorth Cyntaf | 41 | 26 | 43 | 25 | 17 |
| Mân Anafiadau | 26 | 29 | 34 | 23 | 19 |
| Anafiadau Difrifol | 4 | 3 | 5 | 3 | 7 |
| Marwolaethau | 3 | 5 | 5 | 0 | 6 |
| Cyfanswm | 93 | 96 | 118 | 71 | 72 |


| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma (YTD) | % y newid dros y flwyddyn hyd yma | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | Newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol yn y cartref | **2023-24** | **29** | **9** | **22** | **6** | **66** | ↓ 8.2% | 92 | ↓ 10.8% |
| | 2022-23 | 10 | 37 | 14 | 10 | 71 | | | |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol yn y cartref | **2023-24** | **0** | **3** | **1** | **2** | **6** | ↑ Amh% | 3 | ↑ 200% |
| | 2022-23 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | |

* Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 6 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC)

**6.1** Roedd synhwyrydd mwg/gwres yn bresennol yn y mwyafrif o TDC, er na wnaeth pob un weithredu. Mewn 47 o'r TDC, nid oedd synhwyrydd wedi'i osod.

**6.2** O'r 337 TDC, roedd 309 wedi'u cyfyngu i ystafell tarddiad y tân, i'r eitem a daniwyd gyntaf, neu dim ond difrod gwres/mwg oedd yno.



| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma (YTD) | % y newid dros y flwyddyn hyd yma | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Synhwyrydd mwg wedi'i osod ac wedi gweithredu a rhoi rhybudd | **2023-24** | **48** | **37** | **59** | **42** | **186** | ↑ 5.7% | 177 | ↑ 5.1% |
| | 2022-23 | 36 | 45 | 49 | 46 | 176 | | | |
| Synhwyrydd mwg wedi'i osod, wedi gweithredu ond heb roi rhybudd | **2023-24** | **16** | **4** | **9** | **3** | **32** | ↓ 25.6% | 62 | ↓ 48.4% |
| | 2022-23 | 17 | 4 | 10 | 12 | 43 | | | |
| Synhwyrydd mwg heb weithredu | **2023-24** | **22** | **19** | **25** | **16** | **72** | ↓ 13.8% | 80 | ↓ 2.5% |
| | 2022-23 | 17 | 16 | 23 | 16 | 81 | | | |
| Synhwyrydd mwg heb ei osod | **2023-24** | **10** | **13** | **15** | **9** | **47** | ↑ 6.8% | 48 | ↓ 2.1% |
| | 2022-23 | 6 | 13 | 13 | 12 | 44 | | | |


* Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i gefnogi cymunedau drwy gynyddu nifer y bobl sydd â larymau mwg ac addysg ddiogelwch yn ystod y flwyddyn ariannol, yn ychwanegol i'r rhai y soniwyd amdanynt yn flaenorol:**

- Adnewyddwyd y contract tair blynedd gyda Cartrefi Conwy.
- Bydd fideo ADI sy'n cynnwys iaith arwyddion a gwblhawyd yn ystod Ch.4 yn cael ei lansio'n swyddogol gan Grŵp Llywio'r Ymgyrch i gefnogi ymgyrch Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.
- Mae Rheolwyr Partneriaeth yn parhau i feithrin perthnasoedd ag asiantaethau allanol i annog atgyfeiriadau o ansawdd uchel. Rhoddwyd cyflwyniadau i wahanol grwpiau yn ystod Ch.4, gan gynnwys mewn cynhadledd i ofalwyr Dementia ac mewn fforymau gwirfoddolwyr.
- Cefnogwyd 12 digwyddiad Diwrnod Dim Ysmygu ar draws y gwasanaeth ochr yn ochr ag asiantaethau eraill.

## 7 Galwadau Diangen

**7.1** Yn ystod 2023/24 cynyddodd nifer y galwadau diangen 8.4% (2,675 i 2,901). Roedd cynnydd o 15.8% mewn LTA (1,532 i 1,774). Gostyngodd galwadau diangen diffuant 0.4% (1,091 i 1,087).




| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân oherwydd offer | 1,213 | 1,214 | 1,398 | 1,532 | 1,774 | 1,381 |
| Diffuant | 1,020 | 1,061 | 1,076 | 1,091 | 1,087 | 1,076 |
| Maleisus | 41 | 40 | 43 | 52 | 40 | 45 |
| Cyfanswm | 2,274 | 2,315 | 2,517 | 2,675 | 2,901 | 2,502 |

| **Categori** | **Blwyddyn** | **Ch.1** | **Ch.2** | **Ch.3** | **Ch.4** | **Cyfanswm y flwyddyn hyd yma** | **% y newid dros y flwyddyn hyd yma** | **Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** | **% y newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau diangen | **2023-24** | **702** | **813** | **741** | **645** | **2,901** | ↑ 8.4% | 2,502 | ↑ 15.9% |
| | 2022-23 | 671 | 788 | 607 | 609 | 2,675 | | | |
| Larymau Tân Awtomatig (LTA) | **2023-24** | **407** | **520** | **458** | **389** | **1,774** | ↑ 15.8% | 1,381 | ↑ 28.5% |
| | 2022-23 | 416 | 420 | 360 | 336 | 1,532 | | | |
| Galwadau Diangen Diffuant | **2023-24** | **281** | **281** | **276** | **249** | **1,087** | ↓ 0.4% | 1,076 | ↑ 1.0% |
| | 2022-23 | 241 | 353 | 238 | 259 | 1,091 | | | |
| Galwadau Diangen Maleisus | **2023-24** | **14** | **12** | **7** | **7** | **40** | ↓ 23% | 45 | ↓ 11.1% |
| | 2022-23 | 14 | 15 | 9 | 14 | 52 | | | |


* Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i leihau LTA Ysbytai yn ystod y flwyddyn ariannol:**

- Cynhaliwyd cyfarfod gyda thîm rheoli cyfleusterau BIPBC. Amlygwyd bod ganddynt gynlluniau buddsoddi ar gyfer gwahanol leoliadau ledled Gogledd Cymru i wella'r diogelwch tân dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys systemau larwm tân. Bu GTAGC yn trafod y materion yn ymwneud â LTA a'r adnoddau a ddefnyddir. Bydd BIPBC yn gweithio gyda GTAGC ac yn nodi meysydd i leihau gweithredu LTA o'r fath. Er mwyn sicrhau cynnal cyfathrebu agored, cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ch.1 2024/25.

## 8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig

**8.1** Cynyddodd Galwadau Gwasanaeth Arbennig (GGA) 13.7% (1,211 i 1,377), o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd gwrthdrawiadau ar y ffordd 7.3% (234 i 251), tra cynyddodd digwyddiadau 'heblaw GTFf' 15.3%, (977 i 1126). Roedd y cynnydd yn nifer y GGA yr aethpwyd atynt i'w ddisgwyl yn dilyn penderfyniad y Gwasanaeth i gynyddu ei welededd yn y gymuned.





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma (YTD) | % y newid dros y flwyddyn hyd yma | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl alwadau gwasanaeth arbennig | **2023-24** | **332** | **331** | **390** | **324** | **1,377** | ↑ 13.7% | 928 | ↑ 48.4% |
| | 2022-23 | 327 | 371 | 267 | 246 | 1,211 | | | |
| Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd (GTFf) | **2023-24** | **77** | **63** | **55** | **56** | **251** | ↑ 7.3% | 182 | ↑ 37.9% |
| | 2022-23 | 53 | 65 | 60 | 56 | 234 | | | |
| Heblaw GTFf | **2023-24** | **255** | **268** | **335** | **268** | **1,126** | ↑ 15.3% | 746 | ↑ 50.9% |
| | 2022-23 | 274 | 306 | 207 | 190 | 977 | | | |

* Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 9 Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd a Thynnu'n Rhydd/Rhyddhau

**9.1** O'r 251 gwrthdrawiad traffig ar y ffordd yr aethpwyd atynt yn 2023/24, roedd 66 (26.3%) yn ymwneud â'r Gwasanaeth yn defnyddio offer i ryddhau o leiaf un person wedi'i anafu o'r cerbyd. Er bod 140 o ddigwyddiadau wedi arwain at anafiadau, dim ond mân anafiadau oedd gan y mwyafrif o'r rhai oedd wedi'u hanafu.




| | |
|---|---|
| **251** | Cyfanswm y gwrthdrawiadau ar y ffordd yr aethpwyd atynt |
| **140** | o ddigwyddiadau lle cafodd pobl anaf |
| **66** | o ddigwyddiadau lle bu'n rhaid torri pobl allan / eu rhyddhau |

| **Difrifoldeb yr Anaf *** | **Nifer y bobl** |
|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 47 |
| Cymorth Cyntaf | 36 |
| Mân Anafiadau | 93 |
| Anafiadau Difrifol | 43 |
| Marwolaethau | 16 |

** Anafiadau oherwydd gwrthdrawiad ar y ffordd - caiff y rhain eu cofnodi ar y system gofnodi fewnol yn yr un categori ag anafiadau tân*

**Camau a gymerwyd i leihau GTFf yn ystod y flwyddyn flaenorol:**


- Mae Rheolwyr Gwylfa'r Gwasanaeth Tân yn parhau i gyflwyno Stori Olivia ac mae'n parhau i fod yn gyfredol ac i gael effaith fawr. 1,207 o bobl dros 2023/24.
- Biker down: Bu 67 yn mynychu yn ystod 2023/24, yn ystod Ch.4 cawsom ein sesiwn gyntaf 'Paned i'r Beicwyr'. Bydd y rhain yn parhau drwy gydol 2024/25.
- Mae'r tîm Ffenics yn parhau i drafod y "5 angheuol" yn ystod cyrsiau.
- Dechreuodd Prosiect Ugain yn ystod Ch.4, gyda'r nod o gyflwyno ymgysylltu ar ochr y ffordd fel dewis amgen i bwyntiau cosb neu ddirwy. Bu 399 o ymgysylltiadau hyd yn hyn.
- Bu Rheolwyr Gwylfa'r Gwasanaeth Tân yn mynychu diwrnod Digwyddiad Mawr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Heddlu Gogledd Cymru / Prifysgol Wrecsam (diogelwch ar y ffyrdd) ar 6 Mawrth 2024, bydd ôl-drafodaeth ar 14/03/2024. Mynychwyd seminar Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru Gyfan.
- Ymgysylltu'n rheolaidd â Heddlu Gogledd Cymru ynghylch diogelwch ar y ffyrdd i sicrhau parhau gyda chyflwyno stori Olivia a'i thargedu.

## 10 Monitro yn erbyn Amcan Gwella a Llesiant Un

*Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd.*

### 10.1 Archwiliadau Diogel ac Iach

Cwblhaodd y Gwasanaeth 19,859 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, gyda 4,838 (24.3%) ohonynt wedi'u cynnal mewn ymateb i atgyfeiriad gan asiantaeth bartner.




| | Blaenoriaeth Uchel | | | | | Blaenoriaeth Ganolig | | | | | Blaenoriaeth Isel | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
| Ddim wedi'i atgyfeirio gan Asiantaeth | 2,723 | 2,396 | 2,754 | 2,675 | 2,742 | 4,732 | 1,731 | 1,970 | 2,189 | 2,346 | 5,781 | 3,306 | 4,461 | 7,455 | 9,933 |
| Atgyfeiriwyd gan Asiantaeth | 3,013 | 1,987 | 3,284 | 3,487 | 3,290 | 871 | 440 | 690 | 803 | 420 | 1,900 | 1,481 | 921 | 1,443 | 1,128 |
| Cyfanswm | 5,736 | 4,383 | 6,038 | 6,162 | 6,032 | 5,603 | 2,171 | 2,660 | 2,992 | 2,766 | 7,681 | 4,787 | 5,382 | 8,898 | 11,061 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma | % y newid dros y flwyddyn hyd yma | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % yr holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a ddaeth drwy atgyfeiriad gan sefydliad partner | **2023-24** | **30.5%** | **23.9%** | **30.9%** | **20.4%** | **24.3%** | ↓ 49.1% | 51.2% | ↓ 52.5% |
| | 2022-23 | 35.2% | 30.2% | 47.6% | 30.0% | 47.8% | | | |

* Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i wella perfformiad Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y flwyddyn ariannol:**

- Roedd nifer y ADI a gwblhawyd ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yn 19,859, ac yn uwch na'r targed, gyda 4,838 o atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill. Cwblhawyd 12,500 o'r archwiliadau gan griwiau gweithredol.

- Data Caerwysg: Mae pob Gwylfa bellach yn cwblhau gweithgaredd drws-i-ddrws am o leiaf awr y dydd, gan ddefnyddio'r data a ddarparwyd i helpu i sicrhau dull wedi'i dargedu'n well tuag at bobl dros 65 oed. Ganol Ch.4 gwellwyd y data ymhellach trwy gyflwyno dotiau oren i systemau mapio i ddynodi'r bobl hynny dros 70 oed a dotiau coch ar gyfer y rhai dros 75 oed.

- Cafodd y "dangosfwrdd" i ddarparu data cyfredol ei ddrafftio yn Ch.4 a bydd yn parhau i gael ei dreialu cyn ei lansio'n swyddogol i bob gorsaf. Bydd hyn yn caniatáu dull wedi'i dargedu'n fwy fyth i'r criwiau ac yn helpu i nodi meysydd i weithio, ac yn caniatáu i dimau ardal y Gwasanaeth Tân amlygu ardaloedd ar gyfer cynnal ymgyrchoedd.

- Mae "Diwrnodau Effaith" bellach yn cael eu cwblhau ym mhob ardal (un y mis), mae'r digwyddiadau amlasiantaethol hyn yn gweithio'n dda ac yn profi'n llwyddiannus. Defnyddir criwiau gweithredol yn y digwyddiadau hyn ac fe'u trefnir gan Reolwyr Gwylfa'r Gwasanaeth Tân yn yr ardal.


- Yn ystod Ch.4, cwblhaodd criwiau gwledig y system dyletswydd amser cyflawn hyfforddiant ychwanegol ar gyflawni ADI a bellach dyrannwyd y rhan fwyaf o'r holl atgyfeiriadau Isel a Chanolig iddynt sy'n arwain at alwad ffôn ADI. Mae gofyn i bob aelod criw wneud o leiaf 5 galwad ffôn bob dydd tra ar ddyletswydd. Bydd hyn yn caniatáu mwy o amser i'r criwiau Criw Dydd ac Amser Cyflawn ganolbwyntio ar weithgaredd drws-i-ddrws gan ddefnyddio Data Caerwysg.

- Mae Rheolwyr Partneriaeth yn parhau i weithio gydag asiantaethau allanol i geisio sicrhau bod ansawdd yr atgyfeiriadau a dderbynnir mor uchel â phosibl ac wedi'u targedu gymaint ag y bo modd, mae hon yn dasg heriol a bydd yn cymryd amser.

- Bu un Gweithiwr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref ar adleoliad dros dro i ardal y Dwyrain i helpu gyda'r ôl-groniad o ADI hwyr. Mae goramser yn cael ei ddefnyddio gan Weithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol o ran rheoli'r rhestr aros. Defnyddiwyd 80 awr a arweiniodd at gwblhau 56 ADI blaenoriaeth uchel.

- Gwnaed newidiadau yn ystod Ch.4 i'r broses sgorio ADI i sicrhau pwysoli "oedran" yn briodol.

## 11 Argaeledd 18 Pwmp wedi'i Gynllunio




*Argaeledd 18 Pwmp wedi'i Gynllunio (Ar ôl Cynllunio)- perfformiad ym mlwyddyn ariannol 2023/24*

Er y cyrhaeddwyd argaeledd 18 pwmp 100% yn 2023/24, mae'r man cychwyn bob dydd yn dangos sefyllfa hollol wahanol.

Mae argaeledd ar benwythnosau ac ar Wyliau Banc bob amser yn sylweddol well nag yn ystod yr wythnos. Dros y flwyddyn gyfan, roedd argaeledd cyfartalog yn ystod yr wythnos yn 4.8 pwmp, tra oedd argaeledd cyfartalog ar benwythnosau yn 11.2 pwmp.

Ionawr oedd y mis gorau o ran y man cychwyn cyfartalog yn ystod yr wythnos gyda 6.7 pwmp, ac Awst oedd y gwaethaf gyda 3.2 pwmp.

Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng unrhyw ddiwrnod o'r wythnos, gydag amrediad y gwahaniaeth yn 1 pwmp. Fel y gwelir o'r tablau isod, mae argaeledd ar Benwythnosau ac ar Wyliau Banc yn sylweddol uwch.

**Cyfartaledd yn ystod yr Wythnos**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 4.6 |
| Dydd Mawrth | 5.4 |
| Dydd Mercher | 5.2 |
| Dydd Iau | 4.3 |
| Dydd Gwener | 4.5 |

**Cyfartaledd ar Benwythnosau ac ar Wyliau Banc**

| | |
|---|---|
| Dydd Sadwrn | 9.3 |
| Dydd Sul | 12.6 |
| Dydd Gwener | 10.2 |
| Dydd Llun | 14.6 |
| Dydd Mawrth (Gŵyl San Steffan) | 17 |

*Cyfartaledd Argaeledd yn ystod yr Wythnos a Phenwythnosau/Gwyliau Banc ar gyfer Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad*

## 12 Absenoldeb Salwch

Nod y Gwasanaeth yw annog ei holl weithwyr i sicrhau bod eu presenoldeb yn y gwaith mor uchel â phosibl, gan gydnabod na fydd gweithwyr, o bryd i'w gilydd, yn gallu dod i'r gwaith oherwydd salwch.

Yn ôl Adroddiad Absenoldeb Salwch y Gwasanaeth Tân ac Achub Cenedlaethol ar gyfer Ebrill 2023 – Medi 2023, 4.43 diwrnod dyletswydd o absenoldeb salwch fesul aelod staff yw'r cyfartaledd, sy'n cyfateb i 5.82%. Mae GTAGC ychydig yn is na hyn, sef 5.03% ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Mae sawl her allweddol y mae pob gwasanaeth brys yn eu hwynebu o ran rheoli presenoldeb a chadw gweithwyr yn y gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion emosiynol a chorfforol sy'n unigryw, lle mae'n bosibl y bydd yn rhaid i staff gweithredol aros i ffwrdd o'r gwaith yn hirach oherwydd anafiadau corfforol o gymharu â'r rheini mewn rolau anweithredol. Hefyd, mae angen i staff gweithredol fod yn gorfforol heini a bodloni'r safon ffitrwydd genedlaethol i'w galluogi i gyflawni eu rôl yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae effaith hefyd o weithlu sy'n heneiddio lle mae pobl yn byw'n hirach ac yn fwy tebygol o ddioddef o broblemau iechyd sy'n cynnwys cyfnodau o absenoldeb cynyddol.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnig ymyriadau iechyd a llesiant i gefnogi gweithwyr fel mesur ataliol, yn ystod cyfnod o absenoldeb ac i gynorthwyo gyda dychwelyd i'r gwaith. Mae Mesurau yn cynnwys y Polisi Rheoli Presenoldeb, gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol, Ffisiotherapi, Rhaglen

Cymorth i Weithwyr, Safecall (llinell gymorth gyfrinachol annibynnol), Llinell Argyfwng Atal Hunanladdiad a rhaglenni eraill Elusen y Diffoddwyr Tân.

Mae pwyslais ar lesiant gweithwyr a hyrwyddo iechyd o fudd i weithwyr a'u cyflogwyr. Gall helpu i atal afiechyd, a chefnogi unigolion i gydbwyso gwaith gan leihau effaith unrhyw symptomau afiechyd ar yr un pryd, lle bo modd. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i ddarparu cymorth lles i staff ac yn ogystal â'r ymyriadau uchod mae gennym rwydweithiau cymorth llesiant gan gynnwys Hyrwyddwyr Golau Glas, Cefnogwyr Cydweithiwr, Dadfriffwyr Digwyddiadau Critigol, a Rhwydweithiau Staff amrywiol.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, roedd 913 o unigolion wedi'u cyflogi ar gyfartaledd gan GTAGC. Mae absenoldebau oherwydd salwch yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24 yn cyfateb i gyfanswm o 5.08% o amser a gollwyd. Yn ystod Ch.4, gostyngodd nifer yr unigolion sy'n cael eu cyflogi gan GTAGC i 906 o unigolion ac roedd absenoldebau oherwydd salwch yn cyfateb i 4.80% o amser a gollwyd. Drwy gydol y flwyddyn 2023/24, mae nifer yr achosion o absenoldeb tymor byr wedi codi wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen gyda'r nifer uchaf o achosion yn ystod Ch.4, sy'n cyfateb i 1.19% o'r amser a gollwyd oherwydd salwch tymor byr o gymharu â chyfartaledd 0.91% dros y flwyddyn hyd yma. Mewn cyferbyniad, mae nifer yr achosion o salwch hirdymor wedi gostwng o Ch.1, gyda Ch.2 a Ch.3 yn aros yn sefydlog ac yna gostyngiad yn nifer yr achosion yn ystod Ch.4.

Sylwer, trwy gydol yr adroddiad, ni fydd nifer yr achosion yn y flwyddyn hyd yma yn swm y chwarteri oherwydd bydd absenoldebau rhai unigolion yn ymestyn ar draws chwarteri.

| | **Achosion Ch.1** | **Ch.1 % yr Amser a gollwyd** | **Achosion Ch.2** | **Ch.2 % yr Amser a gollwyd** | **Achosion Ch.3** | **Ch.3 % yr Amser a gollwyd** | **Achosion Ch.4** | **Ch.4 % yr Amser a gollwyd** | **Achosion Blwyddyn hyd yma** | **% yr Amser a gollwyd y flwyddyn hyd yma** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Salwch Hirdymor** | 64 | 4.43% | 66 | 4.21% | 63 | 4.27% | 59 | 3.61% | 142 | 4.13% |
| **Salwch Tymor Byr** | 88 | 0.59% | 123 | 0.93% | 143 | 0.95% | 149 | 1.19% | 479 | 0.90% |
| **Cyfanswm** | **152** | **5.03%** | **189** | **5.14%** | **206** | **5.21%** | **208** | **4.80%** | **621** | **5.03%** |

**Tymor byr** yn golygu cyfnodau unigol o salwch o 27 diwrnod calendr neu lai.
**Hirdymor** yn golygu cyfnodau unigol o 28 diwrnod calendr neu fwy

Efallai y bydd rhai systemau dyletswydd yn gweld canran uwch o amser a gollwyd, er cofnodi llai o achosion o absenoldeb. Daw hyn o ganlyniad i'r ffaith bod llai o staff o fewn y system ddyletswydd honno. Mae'r cyfrifiad canran absenoldeb salwch yn gymesur â nifer y staff o fewn y system ddyletswydd honno.

| Salwch Hirdymor a Thymor Byr | Achosion Ch.1 | Ch.1 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.2 | Ch.2 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.3 | Ch.3 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.4 | Ch.4 % yr Amser a gollwyd | Achosion Blwyddyn hyd yma | % yr Amser a gollwyd y flwyddyn hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorsafoedd System Dyletswydd Amser Cyflawn | 29 | 3.94% | 44 | 4.87% | 50 | 3.99% | 46 | 4.50% | 148 | 4.42% |
| System Dyletswydd ar Alwad | 80 | 6.19% | 92 | 5.68% | 100 | 6.00% | 97 | 5.33% | 291 | 5.81% |
| Gwledig | 2 | 4.30% | 4 | 4.35% | 2 | 4.25% | 1 | 1.40% | 8 | 3.58% |
| Ystafell Reoli | 9 | 8.09% | 12 | 9.14% | 12 | 8.37% | 13 | 9.21% | 39 | 8.80% |
| Rheolwyr System Dyletswydd Hyblyg | 6 | 5.11% | 6 | 2.91% | 8 | 2.48% | 10 | 2.45% | 24 | 3.23% |
| Adrannau Gweithredol | 3 | 1.10% | 2 | 2.45% | 7 | 8.26% | 4 | 6.06% | 12 | 4.51% |
| Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | 1 | 0.22% | 0 | 0.00% | 2 | 0.29% | 2 | 0.51% | 5 | 0.26% |
| Adrannau Corfforaethol | 22 | 3.32% | 30 | 4.73% | 25 | 4.33% | 35 | 3.72% | 95 | 4.05% |
| **Cyfanswm** | **152** | **5.03%** | **189** | **5.14%** | **206** | **5.21%** | **208** | **4.80%** | **622** | **5.07%** |

## 12.1 Salwch Tymor Byr

Arweiniodd absenoldeb tymor byr at 0.91% o amser a gollwyd ar gyfartaledd yn ystod 2023/24.

| | Achosion Ch.1 | Ch.1 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.2 | Ch.2 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.3 | Ch.3 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.4 | Ch.4 % yr Amser a gollwyd | Achosion Blwyddyn hyd yma | % yr Amser a gollwyd y flwyddyn hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorsafoedd System Dyletswydd Amser Cyflawn | 17 | 0.59% | 34 | 1.31% | 43 | 1.36% | 36 | 1.46% | 124 | 1.20% |
| System Dyletswydd ar Alwad | 44 | 0.62% | 57 | 0.81% | 62 | 0.80% | 64 | 1.10% | 214 | 0.83% |
| Gwledig | 1 | 0.20% | 4 | 4.35% | 1 | 0.79% | 1 | 1.40% | 6 | 1.69% |
| Ystafell Reoli | 7 | 1.49% | 9 | 1.49% | 9 | 1.81% | 9 | 1.44% | 33 | 1.33% |
| Rheolwyr System Dyletswydd Hyblyg | 3 | 0.26% | 1 | 0.08% | 6 | 0.96% | 8 | 0.72% | 17 | 0.50% |
| Adrannau Gweithredol | 2 | 0.20% | 0 | 0.00% | 3 | 0.76% | 1 | 0.76% | 6 | 0.43% |
| Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | 1 | 0.22% | 0 | 0.00% | 2 | 0.29% | 2 | 0.51% | 5 | 0.26% |
| Adrannau Corfforaethol | 13 | 0.62% | 18 | 1.00% | 17 | 0.83% | 28 | 1.36% | 74 | 0.93% |
| **Cyfanswm** | **88** | **0.59%** | **123** | **0.93%** | **143** | **0.95%** | **149** | **1.19%** | **479** | **0.91%** |

Y 3 Rheswm Pennaf dros Absenoldeb Salwch Tymor Byr

| | Rheswm dros Absenoldeb | Achosion | % yr Amser a Gollwyd |
|---|---|---|---|
| 1 | Annwyd, Ffliw | 103 | 0.15% |
| 2 | Anadlol – Peswch a heintiau ar y frest | 37 | 0.07% |
| 3 | Covid-19 | 41 | 0.07% |

## 12.2 Salwch Hirdymor

Arweiniodd absenoldeb hirdymor at 4.17% o amser a gollwyd ar gyfartaledd yn ystod 2023/24.

| Salwch Hirdymor a Thymor Byr | Achosion Ch.1 | Ch.1 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.2 | Ch.2 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.3 | Ch.3 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.4 | Ch.4 % yr Amser a gollwyd | Achosion Blwyddyn hyd yma | % yr Amser a gollwyd y flwyddyn hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gorsafoedd System Dyletswydd Amser Cyflawn** | 12 | 3.35% | 10 | 3.55% | 7 | 2.63% | 10 | 3.04% | 24 | 3.11% |
| **System Dyletswydd ar Alwad** | 36 | 5.53% | 35 | 4.87% | 38 | 5.20% | 33 | 4.23% | 77 | 4.96% |
| **Gwledig** | 1 | 4.10% | 0 | 0.00% | 1 | 3.46% | 0 | 0.00% | 2 | 1.89% |
| **Ystafell Reoli** | 2 | 6.81% | 3 | 7.65% | 3 | 6.56% | 4 | 7.78% | 6 | 7.53% |
| **Rheolwyr System Dyletswydd Hyblyg** | 3 | 4.86% | 5 | 2.83% | 2 | 1.52% | 2 | 1.74% | 7 | 2.73% |
| **Adrannau Gweithredol** | 1 | 0.90% | 2 | 2.45% | 4 | 7.50% | 3 | 5.31% | 6 | 4.19% |
| **Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth** | 0 | 0.00% | 0 | 0.00% | 0 | 0.00% | 0 | 0.00% | 0 | 0.00% |
| **Adrannau Corfforaethol** | 9 | 2.70% | 12 | 3.73% | 8 | 3.50% | 7 | 2.36% | 21 | 3.12% |
| **Cyfanswm** | **64** | **4.42%** | **66** | **4.21%** | **63** | **4.27%** | **59** | **3.61%** | **143** | **4.17%** |

Y 3 Rheswm Pennaf dros Absenoldeb Salwch Hirdymor

| | Rheswm dros Absenoldeb | Achosion | % yr Amser a Gollwyd |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyhyrysgerbydol - coes/ffêr/troed | 29 | 0.88% |
| 2 | Methu Archwiliad Meddygol/Prawf Ffitrwydd | 15 | 0.52% |
| 3 | Cyhyrysgerbydol - Anhwylderau cefn ac asgwrn cefn | 12 | 0.48% |

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau a threlars, storfeydd awyr agored, offer a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill fel pontydd, blychau post, twneli, ac ati.<br><br>Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, ac felly hefyd danau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd at y digwyddiad.<br><br>Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau fel tir agored, mewn coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn awyr agored, goleuadau traffig, ac ati. |
| Tanau Simnai | Tanau mewn adeiladau wedi'u meddiannu yw'r rhain, lle mae'r tân wedi'i gyfyngu i strwythur y simnai, hyd yn oed os yw gwres neu ddifrod mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simnai yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd at y digwyddiad. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:<br><br>a) Argyfyngau lleol, e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffordd, achub personau, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig, e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;<br>d) Trefniadau blaenorol i fynd at ddigwyddiadau, a all gynnwys darparu cyngor a chynnal archwiliadau. |
| Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol) | Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad yn credu bod digwyddiad, ond ar ôl cyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli.<br><br>Sylwer: os yw'r peiriant tân yn cael ei 'droi rownd' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, nid yw'n cael ei ystyried fel un yr aethpwyd ato ac nid oes angen rhoi gwybod amdano. |

| | |
|---|---|
| Galwadau Diangen – Maleisus | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd at ddigwyddiad sydd ddim yn bodoli, gan gynnwys bwriadau maleisus bwriadol ac amheus. |
| Galwadau Diangen – Diffuant | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda phob ewyllys da, gan gredu y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd at dân go iawn neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau Diangen – LTA | Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u cychwyn gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm wedi'i gychwyn yn ddamweiniol neu pan fo larwm yn gweithredu a pherson yn galw'r GTA yn rheolaidd fel rhan o drefniant sefydlog, h.y. heb unrhyw 'farn', er enghraifft galwad gan ganolfan alwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad. |
| Adeilad – Cartrefi | Eiddo sy'n fan preswyl, h.y. wedi'i feddiannu gan aelwydydd, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswyl nad ydynt yn barhaol. |
| Adeilad – Amhreswyl | Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, neu garchardai. |
| Adeilad – Preswyl Arall | Eiddo fel gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr. |
| Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall) | Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, awyren, cwch. |
| Awyr agored | Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post. |
| Tanau gwyllt | Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth 4 cerbyd neu fwy at y digwyddiad, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr. |
| Salwch Tymor Byr (STS) | Absenoldebau 27 diwrnod calendr a llai. |
| Salwch Hirdymor (LTS) | Absenoldebau 28 diwrnod calendr a mwy. |

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **17 Mehefin 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Adroddiad Cryno ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y cynnydd sydd wedi ei wneud gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a sefydlwyd mewn ymateb i'r penderfyniad a wnaed gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023 i ddatblygu opsiwn parhaol newydd ar gyfer darpariaeth frys ledled Gogledd Cymru.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod ar 18 Rhagfyr 2023, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys dan arweiniad staff i ddatblygu opsiynau ar gyfer darparu darpariaeth frys yng Ngogledd Cymru.

3 Cyfarfu Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a gadeiriwyd gan aelod o staff ac a fynychwyd gan un ar bymtheg o gydweithwyr yn gweithio ar wahanol lefelau, meysydd ac adrannau o fewn y Gwasanaeth, gan gynnwys Undeb y Brigadau Tân, ar naw achlysur, gan drafod ac ymchwilio i nifer o fodelau ymateb brys.

4 Penllanw'r gwaith hwn oedd tri darn o ymchwil i fodelau ymateb brys yn cael eu cyflwyno gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i Weithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod ar 20 Mai 2024. Mae'r tri darn hyn o ymchwil yn cynrychioli cryn dipyn o ymdrech, gwaith ac ymgysylltiad gan randdeiliaid ac aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ac mae pob un ohonynt yn cynnig gwelliannau posibl i'r ddarpariaeth frys.

5 Yn ei gyfarfod ar 20 Mai 2024, gofynnodd Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) adolygu'n fanwl y tri darn o ymchwil a gyflwynwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i ddarparu argymhellion yng nghyfarfod nesaf Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod ar 12 Mehefin 2024.

**ARGYMHELLIAD**

6 Bod yr Aelodau'n:

i) nodi ymgysylltiad ac ymdrechion yr holl randdeiliaid ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i gydweithio i ddatblygu opsiynau ar gyfer gwelliannau i ddarpariaeth frys deg a chyfiawn ar draws Gogledd Cymru; a

ii) nodi'r cynnydd a wnaed gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod i ddatblygu opsiwn parhaol newydd ar gyfer darparu darpariaeth frys ar draws Gogledd Cymru.

**CEFNDIR**

7 Yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023, ymgynghorodd yr Awdurdod â'r cyhoedd ar dri opsiwn posibl ar gyfer darparu ei ymateb brys i gymunedau Gogledd Cymru yn y dyfodol.

8 Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos, cyfarfu'r Awdurdod ar 18 Rhagfyr 2023 a phenderfynwyd fel a ganlyn:

*Gofynna'r Aelodau i'r Swyddogion barhau i weithio gyda'r holl randdeiliaid er mwyn datblygu opsiwn newydd parhaol, gan ystyried y penderfyniad a wnaed heddiw a chyfyngiadau'r gyllideb arfaethedig.*

9 Felly, gofynnwyd am fynegiadau o ddiddordeb gan staff o bob lefel ar draws adrannau'r Gwasanaeth, gorsafoedd a systemau dyletswydd, ac ym mis Ionawr 2024 sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Mae Undeb y Brigadau Tân hefyd wedi'u cynrychioli ac maent wedi bod yn bresennol ym mhob cyfarfod.

10 Cynhaliodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ei gyfarfod cyntaf ar 1 Chwefror 2024 ac maent wedi cyfarfod naw gwaith, gan drafod y model ymateb presennol yn fanwl ac archwilio dulliau arloesol o ddarparu model ymateb brys mwy teg yn y dyfodol.

**GWYBODAETH**

11 Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi derbyn bod angen gwella'r ddarpariaeth frys, yn enwedig yn ardaloedd mwy gwledig Gogledd Cymru, ac roeddent yn deall bod yn rhaid i unrhyw gynigion a gyflwynid ganddynt fodloni meini prawf gwerthuso'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a ddefnyddiwyd drwy gydol y broses o ddatblygu opsiynau.

12 Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi cael ei gefnogi gan adrannau'r Gwasanaeth yn ôl yr angen, wedi cael mynediad at ddata ymateb brys a modelu a hefyd wedi cael cyflwyniadau ar fodelau cyflenwi darpariaeth frys amgen gan Wasanaethau Tân ac Achub eraill y DU.

13 Yn dilyn pob cyfarfod, gofynnwyd i aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys siarad â'u cydweithwyr er mwyn cael adborth ar y syniadau oedd yn cael eu trafod i sicrhau bod y gweithlu ehangach yn ymwybodol o'r datblygiadau. Cafodd cydweithwyr eu hannog hefyd i gyflwyno eu syniadau i gynrychiolwyr Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys er mwyn iddynt gael eu cynnwys yn nhrafodaethau'r grŵp.

14 Archwiliodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys amrywiaeth o opsiynau ymateb brys ar gyfer y dyfodol ac aeth ati i adolygu'r rhain yn erbyn meini prawf gwerthuso'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ac adborth gan gydweithwyr.

15 Datblygwyd tri darn o ymchwil i fodelau ymateb brys a'u cyflwyno gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i Weithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod ar 20 Mai 2024. Mae'r tri darn hyn o ymchwil yn cynrychioli cryn dipyn o ymdrech, gwaith ac ymgysylltiad gan randdeiliaid ac aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ac roedd pob un ohonynt yn cynnig gwelliannau posibl i'r ddarpariaeth frys.

16 Yn ei gyfarfod ar 20 Mai 2024, gofynnodd Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod i Swyddogion adolygu'r ymchwil a darparu argymhellion yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin 2024.

17 Mae cyfarfodydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn y dyfodol wedi'u gohirio hyd nes y ceir canlyniad cyfarfod Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod ar 12 Mehefin 2024.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Rhaid i ganlyniadau yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Cyllideb | Mae goblygiadau'r gyllideb ymgynghori wedi cael eu cyhoeddi. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi bod yn adolygu opsiynau darpariaeth frys sydd o fewn y gyllideb bresennol. |
| Cyfreithiol | Mae ein deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori â'r cyhoedd ar newidiadau i'n darpariaeth frys. Mae ymgynghoriad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a'r arferion gorau y mae'r Gwasanaeth yn eu dilyn fel yr argymhellwyd gan y Sefydliad Ymgynghori yn cefnogi'r Awdurdod i fodloni'r gofynion hyn. |
| Staffio | Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal ymgynghoriad uniongyrchol helaeth gyda staff a'u cyrff cynrychioliadol yn ystod y cam cyn-ymgynghori ac fe barhaodd hyn yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Fodd bynnag, wrth benderfynu ar yr opsiynau i'w cyflwyno, bydd y newidiadau arfaethedig o fewn yr opsiynau yn effeithio ar staff. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Mae Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth wedi ymgysylltu â grwpiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy gydol yr ymgynghoriad. Mae'r arfer gorau y mae'r Gwasanaeth yn ei ddilyn a sicrwydd ansawdd yr ymgynghoriad gan y Sefydliad Ymgynghori yn sicrhau pwyslais ar ofynion yr Awdurdod yn y maes hwn. |
| Risgiau | Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a'i ymgynghoriad a gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn lleihau'r risgiau o beidio â gallu ymateb i argyfyngau yn effeithiol ac yn effeithlon yng nghymunedau Gogledd Cymru. |

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **17 Mehefin 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Adam Leatham,**<br>**Rheolwr Trawsnewid y Gwasanaeth** |
| Pwnc | **Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth yn sgil Trasiedi Gyhoeddus** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Amlinella'r adroddiad hwn i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gefndir, manylion a gofynion y Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth yn sgil Trasiedi Gyhoeddus (y Siarter).

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth yn sgil Trasiedi Gyhoeddus yn ymdrechu i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ymateb i drasiedïau cyhoeddus yn agored, yn dryloyw ac yn atebol. Mae'r Siarter yn cynnwys chwe ymrwymiad sydd â'r nod o feithrin diwylliant o onestrwydd a pharch mewn gwasanaethau cyhoeddus.

3 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r mesurau a gynigir i gyflawni'r ymrwymiadau hyn ac yn argymell bod y Panel Gweithredol yn cymeradwyo cadarnhau'r Siarter mewn cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol. Bydd mabwysiadu'r Siarter yn golygu cydweithio â thimau mewnol a rhanddeiliaid allanol i sicrhau parodrwydd cynhwysfawr a gweithredu effeithiol.

## ARGYMHELLIAD

4 Argymhellir bod yr Aelodau:

i) yn cymeradwyo cadarnhau’r Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth yn sgil Trasiedi Gyhoeddus mewn cyfarfod llawn o'r Awdurdod yn y dyfodol, o dan y telerau canlynol:
- Cadeirydd yr Awdurdod yn llofnodi'r Siarter ar ran Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;
- mae'r Prif Swyddog Tân yn llofnodi'r Siarter ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru; a
- bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wrth weithredu a mabwysiadu'r Siarter.

## CEFNDIR

5 Digwyddodd trychineb Hillsborough ar 15 Ebrill 1989, gan arwain at 97 o farwolaethau o ganlyniad i wasgfa yn rownd gynderfynol Cwpan yr FA rhwng Lerpwl a Nottingham Forest yn Stadiwm Hillsborough yn Sheffield. Hwn oedd y trychineb gwaethaf yn hanes chwaraeon Prydain, a chafodd effaith ddwys ar gannoedd o unigolion ac ar ddinas Lerpwl. Roedd yn ddigwyddiad o arwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol.

6 Ym mis Rhagfyr 2012, diddymodd yr Uchel Lys ddyfarniad y cwest gwreiddiol yn dilyn adroddiad Panel Annibynnol Hillsborough, gan arwain at gwest newydd yn Warrington (31 Mawrth 2014 i 26 Ebrill 2016). Daeth y rheithgor i'r casgliad bod 96 o gefnogwyr Lerpwl wedi'u lladd yn anghyfreithlon. Ym mis Gorffennaf 2021, dyfarnwyd bod Andrew Devine hefyd wedi'i ladd yn anghyfreithlon, a daeth ef yn ddioddefwr rhif 97.

7 Yn 2017, gofynnodd yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd, Theresa May, i'r Gwir Barchedig James Jones KBE roi manylion profiadau teuluoedd Hillsborough. Ysgrifennodd yr Esgob James, cyn Esgob Lerpwl (1998 i 2013), 'The Patronising Disposition of Unaccountable Power' ar 1 Rhagfyr 2017 i sicrhau bod profiadau teuluoedd Hillsborough yn cael eu cofnodi yn gyhoeddus ac na fydd eu dioddefaint yn cael ei ailadrodd.

8 Roedd yr adroddiad yn dogfennu eu profiadau ers 1989, yn rhoi argymhellion allweddol ar gyfer newidiadau systemig, ac yn cynnig y Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth yn sgil Trasiedi Gyhoeddus.

9 Mae'r Siarter yn galw am newid diwylliannol yn ymgysylltiad cyrff cyhoeddus â theuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth, gan sicrhau bod gwersi trychineb Hillsborough a'i ganlyniadau yn cael eu dysgu i atal y rhai y mae trasiedi gyhoeddus yn effeithio arnynt yn y dyfodol rhag cael yr un profiad.

10 Mae llawer o sefydliadau ledled y DU eisoes wedi llofnodi'r Siarter, gan wreiddio'r Siarter yn eu polisïau a'u gweithdrefnau sefydliadol sy'n ymwneud ag ymddygiadau a safonau proffesiynol.

11 Mae Grŵp Cydwasanaethau Brys Cymru (JESG) a Fforymau Lleol Cymru Gydnerth wedi cymryd camau i archwilio'r fenter bwysig hon. Eu nod yw mabwysiadu'r argymhellion a gasglwyd drwy'r Siarter, a datblygu trefn weithredu ledled Cymru ar draws fforymau lleol Cymru gydnerth, ymatebwyr brys, iechyd, awdurdodau lleol, a'r sector gwirfoddol.

12 Cynhaliwyd gweithdy gweithredol ym Mhencadlys Heddlu De Cymru ar 14 Mai 2024 a ddaeth â chynrychiolwyr ynghyd gan gynnwys:

Heddlu Cymru (gan gynnwys Heddlu Trafnidiaeth Prydain), Gwasanaethau Tân Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Prifysgol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Lluoedd Arfog, Cyfoeth Naturiol Cymru, Crwneriaid Ei Fawrhydi, Gwylwyr y Glannau, yr Awdurdod Glo, Ambiwlans Sant Ioan, Trafnidiaeth Cymru, Swyddfa Comisiynwyr Trosedd yr Heddlu, y Groes Goch, Achub Mynydd a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

13 Agorwyd y gweithdy gan y Prif Swyddog Tân Dawn Docx yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd JESG ac fe'i mynychwyd gan y Cynghorydd Dylan Rees fel Cadeirydd yr Awdurdod, y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Justin Evans a'r Rheolwr Grŵp Adam Leatham.

14 Archwiliodd y gweithdy y Siarter a hwyluso sgyrsiau i ddeall sut y gall sefydliadau gyfrannu'n unigol ac ar y cyd, gan ganolbwyntio ar barodrwydd sefydliadol, ymateb a threfniadau adfer yn erbyn chwe phwynt y Siarter. Rhoddodd yr Esgob James brif araith yn pwysleisio pwysigrwydd anrhydeddu'r rhai sydd wedi dioddef mewn trasiedïau cyhoeddus.

15 Ar ddiwedd y digwyddiad, ymrwymodd y sefydliadau i weithio gyda'i gilydd i wasanaethu'r cyhoedd yn well a chefnogi'r rhai y mae trasiedi gyhoeddus wedi effeithio arnynt. Daethpwyd i gonsensws ar drafodaethau sy'n digwydd o fewn sefydliadau perthnasol ac i wreiddio'r Siarter o fewn Bwriadau Strategol Fforymau Lleol Cymru Gydnerth.

**GWYBODAETH**

16 Nid oes unrhyw brosesau ardystio ar gyfer mabwysiadu'r Siarter; argymhellir mabwysiadu'r Siarter yn gyflym ac yn dawel gyda hysbysiadau i grwpiau perthnasol. Mae'r Esgob James a'i gynghorwyr wedi mynd ati yn y gorffennol i gynghori yn erbyn hyrwyddo yn y cyfryngau gan awgrymu proses fabwysiadu sy'n cynnwys polisi, diwylliant a hyfforddiant.

17 Mae agweddau ar y Siarter eisoes wedi'u gwreiddio yn y rheolau, y rhwymedigaethau a'r codau sy'n berthnasol i wasanaethau cyhoeddus a'r sawl sydd mewn swyddi cyhoeddus. Mae'r siarter yn ailddatgan ymrwymiad i ddiwylliant parhaus o onestrwydd a thryloywder mewn gwasanaethau cyhoeddus a'r sector cyhoeddus yn ehangach, yn unol â'r fframweithiau presennol a gwerthoedd sylfaenol Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan), gan gynnwys mewn ymateb i ymchwiliadau cyhoeddus.

18 Dyma chwe egwyddor y Siarter:

- Mewn achos o drasiedi gyhoeddus, cefnogi gweithredu cynlluniau brys a defnyddio adnoddau i achub dioddefwyr, i gefnogi'r rhai mewn profedigaeth ac i amddiffyn y rhai sy'n fregus;
- Rhoi budd y cyhoedd uwchlaw ein henw da ein hunain;
- Ymdrin â chraffu cyhoeddus – gan gynnwys ymchwiliadau cyhoeddus a chwestau – gyda gonestrwydd, mewn ffordd agored, onest a thryloyw, gan ddatgelu dogfennau, deunydd a ffeithiau perthnasol yn llawn. Ein nod yw helpu i ddod o hyd i'r gwir. Rydym yn derbyn y dylem ddysgu o ganfyddiadau craffu allanol ac o gamgymeriadau'r gorffennol;
- Osgoi ceisio amddiffyn yr hyn na ellir ei amddiffyn neu ddiystyru neu ddifrïo'r rhai a allai fod wedi dioddef pan fyddwn ni wedi methu;
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn trin aelodau o'r cyhoedd a'i gilydd gyda pharch a chwrteisi. Pan fyddwn yn methu, dylem ymddiheuro'n onest ac yn ddiffuant; a
- Chydnabod ein bod yn atebol ac yn agored i her. Byddwn yn sicrhau bod prosesau ar waith i ganiatáu i'r cyhoedd ein dal i gyfrif am y gwaith a wnawn ac am y modd yr ydym yn cyflawni’r gwaith hwnnw. Ni fyddwn yn camarwain y cyhoedd na'r cyfryngau yn fwriadol.

19 Bydd mabwysiadu'r Siarter hon, ac anrhydeddu ei hegwyddorion, yn rhoi fframwaith i'r Awdurdod i gefnogi teuluoedd sydd mewn profedigaeth a'r gymuned yn dilyn digwyddiad mawr. Gydag ymrwymiad clir i bobl, ac i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiad.

20 Mae angen gwaith pellach i ystyried parodrwydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) a'r gweithgareddau y gallai fod angen eu rhoi ar waith i ganiatáu mabwysiadu a defnyddio'r Siarter. Bydd hyn yn cynnwys cydweithwyr o Dîm Trawsnewid y Gwasanaeth, y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol, y Tîm Adnoddau Dynol, y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a'r Fforwm Ymwneud â Diwylliant i Staff, yn ogystal â chydweithredu â rhanddeiliaid allanol megis fforymau lleol Cymru gydnerth, ymatebwyr brys, gwasanaethau iechyd, awdurdodau lleol, a sefydliadau gwirfoddol.

21 Mae’r sefydliadau a fynychodd y gweithdy Gweithredol a gynhaliwyd ar 14 Mai 2024 wedi ymrwymo i ragor o waith datblygu ar y cyd dros y misoedd nesaf gyda chyd-lofnodi'r Siarter yn debygol o gael ei drefnu ar ddiwedd 2024.

22 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod a'r Gwasanaeth roi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn, yn fras, yn golygu deall effaith bosibl polisïau a phenderfyniadau ar wahanol bobl, gan ystyried hyn ac yna dangos tystiolaeth o sut y gwnaed penderfyniadau.

23 Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i benderfynwyr, wrth arfer eu holl swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu; a
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

24 Er mwyn bodloni'r gofynion hyn, bydd asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cwblhau i ystyried unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb yn sgil mabwysiadu'r Siarter a'i rhoi ar waith.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Goblygiadau uniongyrchol o ran cyflawni amcanion gwella a llesiant tymor hir yr Awdurdod. Mae'r Siarter yn cyd-fynd ag ymrwymiad yr Awdurdod i gefnogi a gofalu am y gymuned, yn enwedig ar adegau o argyfwng. Trwy sicrhau ymateb tosturiol a thryloyw i drasiedïau cyhoeddus, gall yr Awdurdod gryfhau ymddiriedaeth a gwytnwch cymunedol, gan gyfrannu at lesiant cyffredinol a chydlyniant cymdeithasol. |
| **Cyllideb** | Nid oes unrhyw oblygiadau cyllidebol uniongyrchol hysbys sy'n gysylltiedig â mabwysiadu'r Siarter. Fodd bynnag, efallai y bydd gweithredu ymrwymiadau'r Siarter yn gofyn am ddyrannu adnoddau ar gyfer addasiadau hyfforddiant, polisi a gweithdrefn, ac ymdrechion cyfathrebu gwell. Disgwylir i'r costau hyn fod yn ymarferol o fewn y cyllidebau presennol a chânt eu gwrthbwyso gan fanteision risgiau cyfreithiol llai a gwell ymddiriedaeth gan y cyhoedd. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r Siarter yn ymrwymo'r Awdurdod i fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol, a all leihau'r tebygolrwydd o hawliadau cyfreithiol yn seiliedig ar honiadau o guddio neu ddal gwybodaeth yn ôl. Mae meithrin diwylliant o onestrwydd a dysgu o ddigwyddiadau yn y gorffennol yn dangos ymrwymiad i safonau cyfreithiol a moesegol, |
| **Staffio** | Nid oes unrhyw effaith ddisgwyliedig ar lefelau staffio o ganlyniad i fabwysiadu'r Siarter. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg** | Bydd mabwysiadu'r Siarter yn cryfhau ymhellach waith yr Awdurdod i ddarparu dull sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn dilyn digwyddiad, gan gynnwys unrhyw addasiadau, cymhorthion neu gefnogaeth angenrheidiol i ganiatáu i berson neu bersonau dderbyn Gwasanaethau heb anfantais. |
| **Risgiau** | Mae'r Siarter yn cynnig fframwaith ar gyfer ymddygiad cyson a moesegol, sy'n helpu i reoli risgiau sy'n gysylltiedig ag ymddiriedaeth y cyhoedd a chraffu cyfreithiol. |

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **17 Mehefin 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Tim Christensen**<br>**Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd** |
| Pwnc | **Adroddiad ar Adolygiad Datgarboneiddio 2021-22** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Adrodd ar gynnydd tuag at roi argymhellion adroddiad Archwilio Cymru 'Lleihau Allyriadau Carbon – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru', dyddiedig mis Mawrth 2022, ar waith.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r adroddiad hwn yn adolygu cynnydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wrth fynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Cymru o fis Mawrth 2022 ar leihau allyriadau carbon.

3 Ymhlith y camau allweddol mae penodi Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd, datblygu Strategaeth yr Amgylchedd gynhwysfawr ar gyfer 2023-2030, sefydlu gwaelodlin garbon, drafftio cynlluniau datgarboneiddio manwl, adolygu'r rhaglen amnewid cerbydau, ymgysylltu â staff trwy weithgor, a datblygu System Rheoli'r Amgylchedd.

4 Gofynnir i Aelodau nodi'r camau a gymerwyd a'r cynlluniau datgarboneiddio manwl sydd ar ddod i'w cyflwyno i'r Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

5 Bod Aelodau'n nodi:

i) unrhyw gamau a gymerwyd hyd yn hyn; ac
ii) argymhellion ar gyfer polisïau datgarboneiddio manwl i'w cyflwyno i'r Panel Gweithredol dros y flwyddyn i ddod

## CEFNDIR

6 Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Archwilio Cymru adolygiad o'r cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod tuag at ddatgarboneiddio. Roedd hyn yn edrych yn benodol yng nghyd-destun nod Llywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus fod yn Sero Net o ran allyriadau erbyn 2030. Nodir y targed hwn o dan Gyllideb Garbon 2 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

7 Canfu'r adolygiad nad oedd digon o gynnydd tuag at gyflawni'r nod hwn, a gwnaeth nifer o argymhellion penodol. Ym mis Medi 2022, penododd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) Reolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd, sydd wedi gweithio gyda rhanddeiliaid (gan gynnwys Gweithgor o Aelodau'r Awdurdod) i ddatblygu Strategaeth yr Amgylchedd gynhwysfawr ar gyfer y cyfnod 2023-2030. Mabwysiadwyd y Strategaeth hon gan yr Awdurdod ar 17 Gorffennaf 2023.

8 Datblygwyd cynlluniau datgarboneiddio manwl mewn ymgynghoriad â Gweithgor Aelodau sy'n ymdrin â'r Fflyd, Ystadau, Caffael ac Allyriadau Gweddilliol. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Panel Gweithredol a'r Awdurdod Llawn dros y flwyddyn i ddod.

## GWYBODAETH

9 Amlinellir isod yr argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru, ynghyd â chamau gweithredu perthnasol sydd wedi'u cwblhau a'u cynllunio.

10 **Datblygu Gwaelodlin Garbon Gywir**
Mae gwaelodlin garbon wedi'i phennu, gan ddefnyddio allyriadau o dan gwmpasau adrodd un a dau o Flwyddyn Ariannol 2021/22, a Chwmpas 3 o Flwyddyn Ariannol 2022/23.

11 **Datblygu Cynllun Penodol ar gyfer Lleihau Carbon**
Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, gan gynnwys sesiynau gyda'r Gweithgor Aelodau, mae'r dogfennau canlynol wedi'u drafftio, i'w hystyried gan Aelodau dros y flwyddyn i ddod:

- Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi
- Cynllun Datgarboneiddio Pŵer
- Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd
- Cynllun Allyriadau Carbon Gweddilliol

Mae gweithgareddau lleihau carbon nodedig sydd wedi'u cynllunio yn cynnwys cyflwyno dewis amgen cynaliadwy i ddisel, amnewid systemau gwresogi hydrocarbon presennol yn raddol, a gosod paneli ffotofoltäig solar lle bo'n fasnachol hyfyw i wneud hynny.

12 **Diwygio’r Rhaglen Amnewid Cerbydau**
Mae ein Cynllun drafft Datgarboneiddio’r Fflyd yn gofyn am brynu dim ond cerbydau allyriadau sero neu isel iawn o ddiwedd blwyddyn galendr 2024, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

Rhagwelir y bydd 'fflyd wen‘ y Gwasanaeth yn y pen draw yn cynnwys cerbydau trydan gyda nifer o faniau disel yn rhedeg ar Olew Llysiau wedi’i Drin â Hydrogen (HVO) yn unig, nes bydd faniau trydan sy'n addas yn weithredol ac sy’n fasnachol hyfyw ar gael.

13 **Ymgysylltu â Staff a'u Cynnwys**
Sefydlwyd ‘Gweithgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd’ yn gynnar yn 2023, gyda gwahoddiad agored i staff gymryd rhan. Mae'r Grŵp bellach yn cyfarfod bob chwe wythnos gyda phresenoldeb da, ac yn cael ei gadeirio gan Reolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd.

14 **Cryfhau Monitro a Gwerthuso**
Mae Strategaeth yr Amgylchedd yn ei gwneud yn orfodol i’r Gwasanaeth ddatblygu a mabwysiadu System Rheoli'r Amgylchedd. Mae'r gwaith datblygu yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd System Rheoli'r Amgylchedd, pan fydd wedi'i chwblhau, yn bodloni gofynion yr argymhelliad hwn.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gwaith hwn yn cefnogi Amcanion Llesiant yr Awdurdod yn uniongyrchol, gan gyd-fynd â nodau ehangach ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd. |
| Cyllideb | Mae ystyriaethau cyllidebol, ond bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau ar adeg ystyried y cynlluniau datgarboneiddio manwl. |
| Cyfreithiol | Risg o beidio â chydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. |
| Staffio | Dim ystyriaethau staffio hysbys. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Ymgynghorwyd â’r Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) drwy gydol datblygiad Strategaeth yr Amgylchedd. Nid oes unrhyw faterion hysbys yn codi. |
| Risgiau | Bydd risgiau strategaethau datgarboneiddio penodol yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau ar adeg eu hystyried. |

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **17 Mehefin 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio Corfforae** |
| Pwnc | **Rheoli Risg Strategol** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi diweddariad i'r Aelodau am gynnwys cofrestr risg strategol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn unol â'r Polisi Rheoli Risg Strategol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r cynlluniau adrannol ar gyfer 2023/24 wedi'u hadolygu ar gyfer Ch3 a Ch4 gan benaethiaid adrannau, gan gynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni eu hamcanion ar ôl lliniaru. Mae'r risgiau hyn wedi'u sgorio o 1 i 25, ac maent wedi'u categoreiddio fel Uchel Iawn, Uchel, Canolig ac Isel ac wedi'u rhoi mewn rhestr gyfun o 67 o risgiau adrannol.

3 Yn dilyn yr adolygiadau hyn, nid oes unrhyw risgiau newydd Uchel Iawn wedi eu nodi. Fodd bynnag, mae un risg Uchel newydd wedi ei nodi (Cadwyn Cyflenwi Offer Gwarchod Personol) ac wedi ei hychwanegu at y gofrestr ac mae un risg Uchel wedi ei gostwng i Ganolig Uchel yn sgil ailasesu'r sgôr effaith.

4 Er mwyn coladu'r Gofrestr Risg Strategol, mae'r 67 o risgiau adrannol wedi'u grwpio i naw thema yn Ffig.1 sy'n adlewyrchu'r sgôr adrannol er mwyn nodi'r risg gronnol i'r sefydliad.

## ARGYMHELLIAD

5 Bod yr Aelodau'n nodi'r risgiau strategol a nodwyd sydd yn wynebu'r Awdurdod yn dilyn adolygiad diwedd y flwyddyn.

## CEFNDIR

6 Mae Polisi Rheoli Risg Strategol mabwysiedig yr Awdurdod yn diffinio risg strategol fel digwyddiad a fyddai, pe bai'n digwydd, yn effeithio ar y gwaith o gyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd gan yr Awdurdod a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd.

7 Mae Cofrestr Risg Strategol yr Awdurdod yn nodi risgiau hysbys a allai atal yr Awdurdod o bosibl rhag cyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd ganddo a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd. Pennir sgoriau risg i'r cofnodion yn y gofrestr, sy'n cael eu hailwerthuso'n rheolaidd gan swyddogion i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ac effaith ragweledig y gwrthfesurau arfaethedig.

8 O dan y polisi hwn, mae'r Panel Gweithredol yn cael adroddiad crynhoi ynghylch risgiau strategol o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Rhwng yr adegau hynny, gall Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod weld manylion llawn y gofrestr gyda swyddogion.

9 Mae'r Gofrestr Risg Strategol yn cofnodi lefelau risg presennol a lefelau risg yn y dyfodol (ar sail tybiaeth y bydd y gwrthfesurau a gynlluniwyd yn cael yr effaith a ddymunir).

**GWYBODAETH**

10 Mae'r swyddogion yn parhau i adolygu a diweddaru'r gofrestr risg gan ychwanegu, dileu ac ailsgorio risgiau fel y bo'n briodol.
removing and re-scoring risks as appropriate. Fel isafswm, gwneir hyn yn ystod y diweddariadau chwarterol i gynlluniau adrannol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cynnal y gofrestr a gweithredu i reoli risg yn cynyddu'r tebygolrwydd y caiff nodau llesiant yr Awdurdod eu cyflawni. |
| Cyllideb | Mae cynnal y gofrestr yn helpu i flaenoriaethu penderfyniadau o ran gwario a fyddai'n lleihau lefelau risg. |
| Cyfreithiol | Mae cynnal y gofrestr yn helpu i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n diffinio ei swyddogaethau a sut y mae'n gweithredu. |
| Staffio | Ni nodwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Ni nodwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Risgiau | Bwriad gwaith lliniaru yw lleihau'r tebygolrwydd o risg. |

Cofrestr Risg Strategol

Mae cyfanswm o 67 o risgiau wedi'u cynnwys mewn Cynlluniau Adrannol ar gyfer 2023/24 sydd wedi eu coladu'n naw thema sy'n ffurfio'r sail er mwyn nodi eu risg gyffredinol i'r sefydliad:

Risgiau o Gofrestrau Risg Adrannol ar gyfer 2023-2024 wedi'u grwpio'n Themâu Strategol

| CYFEIRNOD RISG STRATEGOL | GRADDFA BLAENORIAETH | UCHEL IAWN | UCHEL | CANOLIG UCHEL | CANOLIG ISEL | ISEL | CYFANSWM O GYNLLUNIAU ADRANNOL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | SGÔR | **20-25** | **12-16** | **08-10** | **4-6** | **1-3** | |
| | THEMA RISG STRATEGOL | | | | | | |
| 1 | Ymosodiad Seibr | 1 | 3 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| 2 | Ariannol | 0 | 3 | 11 | 1 | 2 | 17 |
| 3 | Hinsawdd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 4 | Cyfreithiol | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 3 |
| 5 | Enw da | 0 | 0 | 3 | 1 | 0 | 4 |
| 6 | Ymateb | 0 | 0 | 2 | 5 | 0 | 7 |
| 7 | Adnodd staffio | 0 | 4 | 13 | 5 | 1 | 23 |
| 8 | Cadwyn cyflenwi | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 3 |
| 9 | Systemau TG | 0 | 1 | 2 | 3 | 0 | 6 |
| **CYFANSYMIAU** | | **1** | **12** | **36** | **15** | **3** | **67** |

Ffig.1
Dyma fanylion y risgiau Uchel Iawn ac Uchel a'u gwrthfesurau:

| Risg Uchel Iawn | Gwrthfesurau |
|---|---|
| Ymosodiad seibr ar wybodaeth, cyfathrebu a thechnoleg | • Monitro bygythiadau byd-eang yn barhaus ac adolygu amddiffynfeydd diogelwch seibr<br>• Yr achrediad Hanfodion Seibr wedi'i gyflawni. (Hanfodion Seibr/Cyber Essentials - cynllun a gefnogir gan y Llywodraeth sy'n amddiffyn sefydliadau yn erbyn amrywiaeth o'r ymosodiadau seibr mwyaf cyffredin.)<br>• Ymdrechu i ddenu personél sydd â'r sgiliau addas i gefnogi cydymffurfio gyda'r arfer orau.<br>• Gwneud gwaith cynnal a chadw ataliol, ac adolygu technolegau gwydn |

Mae'r 17 o risgiau lefel uchel a nodwyd gan adrannau mewn perthynas â chyflawni eu hamcanion wedi eu grwpio o fewn y pedair thema risg strategol isod ac yn debygol o barhau ar lefel uchel, er gwaetha'r gwrthfesurau isod.

| Risg Uchel | Gwrthfesurau |
|---|---|
| Effaith newid hinsawdd, gan gynnwys y galw ar adnoddau a heriau amgylcheddol yn ymwneud ag ystadau a cherbydau. | • Strwythur llywodraethu yn ei le i fonitro ac adrodd<br>• Strategaeth amgylchedd a chynaliadwyedd yn ei lle |
| Heriau ariannol yn deillio o ddiffyg arian i gyflwyno gwasanaethau craidd neu i gynnal systemau hanfodol o ran risg.<br>Mae hyn yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â newidiadau pensiwn yn dilyn dyfarniadau diweddar ac effaith y newidiadau yn dilyn dirymu cyfraith yr UE | • Y gyllideb eisoes wedi ei dyrannu yn y rhaglen gyfalaf a phob amrywiad i'w gymeradwyo gan y SPOC<br>• Penodi arweinydd technegol Cymru gyfan ar gyfer pensiynau i gefnogi'r Uwch Swyddog Pensiynau gyda'r gwaith o brosesu'r newidiadau sy'n deillio o'r newid yn y ddeddfwriaeth pensiynau gyda phroses archwilio ar waith.<br>• Parhau i weithio ar y cyd mewn partneriaeth gydag ATAGC<br>• Parhau â'r sgwrs gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol yn enwedig o ran arian grant.<br>• Sicrhau bod cynlluniau parhad busnes ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.<br>• Monitro newidiadau i gyfraith cyflogaeth a allai effeithio ar bwysau cyllideb cynyddol ar ôl dirymu cyfraith yr UE. |

| | |
|---|---|
| Recriwtio a chadw digon o staff er mwyn gallu parhau i gyflwyno'r gwasanaethau gyda heriau penodol o ran cynnal gwasanaeth ymateb i argyfwng mewn ardaloedd gwledig | • Datblygu a gweithredu safonau ymateb gwell, effeithiol ac effeithlon drwy'r prosiect adolygu ymateb mewn argyfwng..<br>• Recriwtio'n rhagweithiol mewn gorsafoedd gwledig gydag ymdrechion parhaus i recriwtio'r staff cywir yn y lle cywir i ddarparu gwasanaeth ar yr adeg gywir<br>• Blaenoriaethu llwythi gwaith a gwella sgiliau/hyfforddi staff<br>• Mentora a hyfforddi staff lle y bo'n bosibl er mwyn gwella gwytnwch<br>• Gweithio i leihau pwyntiau llwyddiant unigol a seilos gwybodaeth gan gynnwys parhau i recriwtio i lenwi swyddi gwag.<br>• Adolygu'r gwersi a ddysgwyd o gynllunio ar gyfer gweithredu diwydiannol yn 2022/23<br>• Sicrhau bod cynlluniau parhad busnes ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan roi sylw i golli staff ym mhob adran.<br>• Monitro newidiadau i gyfraith cyflogaeth a allai effeithio ar bwysau cyllideb cynyddol ar ôl dirymu cyfraith yr UE. |
| Amharu ar systemau TG sydd wedi eu cynllunio'n arbennig i adrannau a/neu'r gwasanaeth ehangach neu eu colli | • Gweithio i sicrhau bod contractau newydd gyda chyflenwyr addas er mwyn cynnal systemau a mudo i opsiynau amgen<br>• Sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn cael hyfforddiant addas a digonol<br>• Sicrhau bod cynlluniau parhad busnes ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. |

Caiff **Risg** ei diffinio fel cyfuniad o'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau peryglus a'r hyn sy'n deillio ohonynt.
**Tebygolrwydd:** y siawns bod rhywbeth yn digwydd. Gellir ei ddisgrifio yn unol â pha mor debygol, pa mor aml neu ba mor ansicr yw digwyddiadau.
**Canlyniad:** Canlyniad digwyddiad. Yn benodol, difrifoldeb neu raddau'r niwed a achoswyd gan ddigwyddiad.

| TEBYGOLRWYDD | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 5 Bron yn sicr | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 |
| | 4 Tebygol | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| | 3 Posibl | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 |
| | 2 Annhebygol | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 |
| | 1 Annhebygol iawn | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| | | 1 Ansylweddol | 2 Bychan | 3 Cymedrol | 4 Sylweddol | 5 Mawr |
| | | CANLYNIAD | | | | |

| Gwerth | Graddfa flaenoriaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 1-3 | Isel | Nid yw gweithredu'n hanfodol gan fod y risg yn isel.<br>Ystyried ei symud i gofrestr risg ar lefel y gwasanaeth. |
| 4-6 | Canolig isel<br>Risg yn oddefadwy | Sicrhau bod rheolaethau ymarferol a rhesymol ar waith. Ystyried ei symud i gofrestr risg ar lefel y gwasanaeth. |
| 8-10 | Canolig uchel<br>Risg yn gymedrol | Dylid cynllunio camau i leihau'r risg. |
| 12-16 | Uchel<br>Risg yn sylweddol | Dylid cynllunio i weithredu ar frys, gan ddyrannu cyfrifoldebau a gofynion adrodd yn glir, a chan osod terfynau amser llym. |
| 20-25 | Uchel iawn<br>Risg yn annerbyniol o uchel | Dylid cymryd camau brys ac uniongyrchol, gan atal gweithgareddau eraill neu gyflwyno cymorth ychwanegol os oes angen nes bydd y risg wedi'i lliniaru. |